

ECO'R WYDDFA

Rhif 215

MEDI 1995

Pris 25c

Anrhydeddu Cynghorydd



Mr R. O. THOMAS yn derbyn teyrngned am ei wasanaeth fel Cynghorydd am bedair blynedd ar hugain oddi wrth Dafydd Whiteside Thomas, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug.

OLIFAR YSGOL BRYNREFAIL



Ceir mwy o luniau a hanes 'Olifar' ar dudalen 11.

Flwyddyn yn ôl dechreuodd Mr Gareth Hughes Jones, athro cerdd Ysgol Brynrefail, feddwl am y posibilrwydd o ffurfio cwmni theatr yn yr Ysgol. Y bwriad oedd darparu cyfle i'r disgyblion gael rhan mewn cyflwyniad fel sioe gerdd. Cafodd y syniad groeso mawr yn yr Ysgol, ac erbyn hyn mae Cwmni Theatr Ieuentid Ysgol Brynrefail wedi ei sefydlu ac wedi cael llwyddiant mawr gyda'i gynhyrchiad cyntaf. Cyflwynwyd cyfieithiad Aled Lloyd Davies o'r sioe gerdd 'Olifar' yn ystod wythnos olaf tymor yr haf. Fore Llun, 17 Gorffennaf, cafodd plant o ysgolion cynradd y dalgylch gyfle i weld y sioe. Y noson honno a'r noson ddilynol cafwyd perfformiadau cyhoeddus. Roedd Neuadd yr Ysgol dan ei sang y ddwy noson a chafodd y cynhyrchiad ganmoliaeth a chroeso gwresog.

Roedd dros 60 o ddisgyblion yn cymryd rhan ar y llwyfan. Roedd rhyw 35 arall yn cynnwys rhai o'r athrawon yn gweithio tu ôl i'r llenni. Gwelwn felly bod yna fwy na 100 yn perthyn i'r Cwmni. Mae llawer ohonynt eisoes yn gofyn beth a phryd fydd y cynhyrchiad nesaf. Ond cyn hynny caiff pawb a gyfrannodd at y sioe edrych ymlaen at fwynhau trip i Blackpool i weld y sioe 'Joseff'. Dymunir pob llwyddiant i'r Cwmni newydd, a gobeithir clywed llawer rhagor amdano yn y dyfodol.

Parasiwt y Nyrsus



Un o'r gweithgareddau codi arian mwyaf mentrus y gellir meddwl amdano yw naid barasiwt. Ganol mis Awst aeth tri o weithwyr Ysbyty Eryri, Caernarfon, ynghyd â chyfaill arall iddynt, i swydd Amwythig i gyflawni'r gamp er mwyn codi arian at Gymdeithas Afiechyd y Motor Neurone. Penderfynwyd cefnogi'r elusen honno gan fod Mrs Enfys Parry, Noddfa, Llanberis, a fu'n nyrs yn yr Ysbyty am flynyddoedd, yn dioddef o'r afiechyd. Ers cael gwybod am ei hafiechyd bron i ddwy flynedd yn ôl bu Enfys yn weithgar iawn gyda'r Gymdeithas, ac yn gefnogol iawn i'r gwahanol ymdrechion lleol i godi arian i gefnogi gwaith yr elusen. Hynny a barodd i'w

chydweithwyr feddwl am y naid barasiwt. Un o'r rhai a neidiodd oedd Gareth Humphreys o Fethel, sydd hefyd yn nyrs yn yr Ysbyty. Mae ef yn awyddus i ddiolch i bawb ym Methel a'r cylch a fu mor barod i'w nodd i'r lles yr elusen sy'n cynnal ymchwil hollbwysig ynglŷn â'r afiechyd. Y lleill oedd Sharon Williams, Elisabeth Tate a Steven Underwood. Cawsant hyfforddiant trylwyr wrth gwrs cyn mentro i'r awyr. Mwynhaodd y pedwar y profiad yn fawr iawn; gymaint felly nes eu bod wedi dychwelyd i swydd Amwythig i neidio ers hynny. Anfonwn ein cofion gorau at Enfys.

Caneuon Tan-y-coed

Mae gweithgarwch un o Ysgolion Sul y fro wedi arwain at gyhoeddi llyfr newydd o ganeuon i blant. Eilir Jones a Jina Gwyrfaei yw awduron y llyfr *Trowch at yr Iesu* sy'n cynnwys 24 o ganeuon newydd. Dechreuodd y ddwy ysgrifennu'r caneuon ryw dair mlynedd yn ôl i gydfynd â gwersi'r Ysgol Sul i'r plant yng Nghapel Tan-y-coed, Llanrug. Roeddent yn awyddus i gael caneuon yn sôn am gymeriadau'r Beibl a hanesion penodol ym mywyd Iesu Grist. Ac o weld bod prinder caneuon o'r fath, aethant ati i ysgrifennu rhai newydd eu hunain. Cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r alawon ganddynt hwy tra bo rhai yn osodiadau o alawon adnabyddus. Y ddwy ohonynt hefyd a ysgrifennodd y geiriau ar wahân i ambell gyfraniad gan rai o'u cydaelodau yn Nghan-y-coed. Mae'r caneuon yn sôn am gymeriadau fel Noa, Abraham, Jacob, Josua, Eleias, Daniel, Jona a Sacheus. Buont yn defnyddio'r caneuon yn rheolaidd yn yr Ysgol Sul ac mae amryw ohonynt eisoes yn ffefrynu gan y plant. Dylai'r gyfrol fod yn ddefnyddiol iawn mewn Ysgolion Sul ac yn yr ysgolion dyddiol. Mae'r llyfr, sy'n cynnwys cyfeiliant piano syml a chordiau gitâr, wedi ei gyhoeddi gan Cyhoeddiadau Curiad, a'i bris yw £5.95.

CWMNI DRAMA LLANBERIS

Bydd y cwmni yn ailafael yn yr awennau ddiwedd mis Medi wedi tymor llwyddiannus iawn, gyda'r perfformiad olaf yn Eisteddfod Bro Colwyn ym mis Awst. Gwahoddir aelodau newydd i ymuno â'r Cwmni. Cysyllter â Bert Parry ar 871433

ECO'R WYDDFA

Rhif 215
MEDI 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodd Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 18
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyr

Enw i'r Cyngor

Annwyl Ddarllenwyr,

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, bydd cyngor unedol newydd yn disodli cyngorau presennol Arfon, Dwyfor, Gwynedd a Meirionnydd o Ebrill 1996 ymlaen. Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, enw'r Cyngor newydd fydd 'Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd'. Fod bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor newydd newid ei enw, er efallai y bydd yn rhaid cael cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bwriad y Cyngor Sir newydd yw newid enw'r Cyngor ac mae wedi penderfynu ymgynghori â chwi ynglŷn â hyn. Gellir cynnig sawl rheswm dros beidio â chadw'r enw a roddwyd iddo yn Ddeddf.

★ Mae'n enw hir a gallai pobl hepgor defnyddio'r elfen 'a Meirionnydd'.

★ Bydd atgofion o'r ad-drefnu bob tro y clywir neu y darllenir yr enw.

★ Ni fydd ardal Edeyrnion o fewn ardal y Cyngor newydd.

★ Roedd yr hen Sir Gaernarfon yn ymestyn hyd at Landudno, Trefriw a Phenmachno — ardaloedd a fydd yn rhan o Gyngor newydd arall.

Wrth ystyried enwau newydd addas defnyddiodd y Cyngor y canllawiau isod:

★ cael enw sy'n hawdd ei ynganu a'i ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

★ Mantais cael yr un enw yn y Gymraeg a'r Saesneg.

★ Peidio â defnyddio enw corff arall (e.e., Parc Cenedlaethol Eryri).

★ Peidio â chyfeirio at enw unrhyw fro arbennig heb gynnwys holl ardal y cyngor newydd.

Ar ôl ystyried y rhesymau o blaid newid enw'r Cyngor a'r canllawiau uchod, bwriad y Cyngor yw ceisio sicrhau'r enw 'Cyngor Gwynedd' dros y Cyngor newydd. Manteision y dewis hwn yw:

★ Mae holl ardaloedd y cyngor newydd yn rhan o'r Gwynedd Gymreig hanesyddol.

★ Mae'r enw yn cyfleu hunaniaeth yr ardal a bydd yn haws i bobl ddeall y cyfnewid.

★ Gall y Cyngor arbed arian trwy osgoi ail-beintio arwyddion ar

adeiladau a cherbydau.

★ Gall busnesau lleol arbed tipyn o ran ail-argraffu deunydd sydd â'r enw Gwynedd arno.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael eich barn ac edrychaf ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir iawn,

GERAINT R. JONES

Prif Weithredwr Cyngor Sir
Gaernarfon a Meirionnydd
Swyddfa Arfon, Penrallt,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1BN
Ffôn: (01286) 679012

Aduniad Coleg Normal

Annwyl Olygydd,

A hithau'n ugain mlynedd eleni ers inni ymadael â'r coleg i ymosod ar y byd mawr oddi allan, 'rydym wrthi'n trefnu Aduniad ar gyfer y rhai fu'n gyd-fyfyrwyr â ni yn y Coleg Normal rhwng y blynyddoedd 1972 a 1975. Bwriedir cynnal cinio yn y Coleg ar nos Sadwrn, Hydref 21ain, 1995.

'Rydym wedi ceisio cysylltu â chymaint a phosib o'n cyd-fyfyrwyr o'r cyfnod hwnnw, ond mae'n siŵr fod yna rhai heb dderbyn gwybodaeth. Tybed a fyddai modd cyhoeddi hyn o lythyr yn eich rhifyn nesaf o'r papur rhag ofn inni gyrraedd ychydig mwy o'r hen griw? Er mai ar gyfer ein blwyddyn ni'n bennaf y bwriedir yr Aduniad, nid oes gwrthwynebiad gennym os oes rhai myfyrwyr o flynyddoedd hyn neu iau am fanteisio ar y cyfle i ailgyfarfod.

Gellir cael manylion pellach trwy ffonio un o'r rhifau isod. Edrychwn ymlaen at weld llu ohonoch ym mis Hydref.

Yn gywir

MAI JONES

(01291) 423881

RHIANNON THOMAS

(01248) 681019

Cronfa Swyddfa Plaid Cymru

Annwyl Gyfeillion,

Cynhelir Dydd Agored yn Swyddfa Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, ddydd Gwener, 29 Medi, o 10.30 hyd 4.00 o'r gloch.

Gwahoddwn chwi yno yn gynnes yn ystod y dydd i gyfarfod â ffrindiau, i gael sgwrs a phaned. Bydd bwrdd gwerthu yno hefyd.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ystod y dydd ar 29 Medi.

Yn gywir iawn,

Mair Jenkin Jones

Olwen Llywelyn

Eisteddfod Bro Colwyn

Annwyl Olygydd,

Wrth wrando ar Gystadleuaeth y Rhuban Glas o'r Eisteddfod dechreuais feddwl am ddyddiau plentyndod ym Mrynrefail. Roeddem yn cael baint fawr o glywed cantorion gwych fel Gruffydd Thomas, Fach-wen, a Mrs Roberts, 'Rallt, Brynrefail, ac Ifan Jones, Trosafon. Mae gennyf gof hefyd am Jôs y Barbwr efo Cerdd Dant ac am gorau Twm Bach Merica. Byddai ei gôr mawr yn festri'r capel ar nos Sul. Byddem ninnau'r plant yn dysgu'r darnau ac yn eu canu wrth fynd adref o'r gwasanaeth. Pan oeddw'n yn byw yn Abergele daeth Myfanwy o'r Bryn ataf i aros am gyfnod. Roedd hi'n ffrindiau mawr i Madam Mary Taylor Hughes, a chefais y ffrind o fynd gyda Myfanwy i gartref Madam Taylor. A dyna i chi ganu oedd yno, gyda Madam Taylor yn canu'r piano a'r ddwy yn canu gyda'i gilydd. Canu i godi'r to. Diolch fod Cymru fach yn wlad y gân.

Yn gywir,

UN O GAERNARFON 'NAWR

Cymry De Ewrop

Annwyl Gyfeillion,

Tybed a allwch fy helpu? 'Rwyf yn awyddus i glywed oddi wrthyich os gwyddoch am Gymry Cymraeg sy'n byw yn Ne Ewrop, sef De Ffrainc, Yr Eidal, Sbaen, Portiwgal, Groeg a Thwrci. Os ydych, yna rhowch wybod i mi trwy lythyr neu ffôn — y cyfeiriad yw 2il Lawr, 38-40 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: (01286) 673535.

Edychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich.

Llawer o ddiolch,

ANN FÔN JONES

CYMANFA GANU ANNIBYNNWYR SIR GAERNARFON

yn SALEM, CAERNARFON

Plant a'r leuenctid:
nos Wener, 29 Medi
am 7 o'r gloch

Oedolion:
nos Sadwrn, 7 Hydref
am 6 o'r gloch

Arweinydd:
Mrs Catherine Watkin

Y GWALCH

Mae addasiad o nofel a ysgrifenydd gan un o golofnwyr yr *Eco* i'w chlywed ar Radio Cymru ar hyn o bryd. *Hadau Gwyllt* oedd nofel gyntaf Y Gwalch, a gellir clywed yr addasiad radio ar bawn Sul am 5 o'r gloch gydag ailddarlleniad ar ddydd Mercher am 12.30 o'r gloch.

Yn gynharach eleni cyfranodd Y Gwalch at fideo am hen ffynnon ddurlyd Cegin Arthur a

'MAE GEN I GÂN'

Yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn eleni fe lansiwyd y llyfr *Mae Gen i Gân*. Ceir ynddo gasgliad o ugain o ganeuon i blant wedi eu cyfansoddi gan Leah Owen ar eiriau Selwyn Griffith. Cydnabyddwyd eisoes gyfraniad gwerthfawr y ddau yn eu meysydd penodedig ond dyma'r tro cyntaf i'r ddau weithio ar y cyd. Bu gwaith Selwyn yn boblogaidd iawn yn y byd eisteddfodol — yn lleol a chenedlaethol. O bosib mai cerddi plant Selwyn yw'r rhai mwyaf poblogaidd gan drefnwyr eisteddfodau ledled Cymru. sawl tro y clywsom ei gerddi yn cael eu hadrodd? Felly syniad goleuedig oedd cyfuno ei ddawn ef a dawn gerddorol Leah. Heb os, caiff y gyfrol liwgar hon groeso gan blant, rhieni, athrawon a threfnwyr cyngherddau lleol ac eisteddfodau.

Mae'r caneuon a'r cerddi yn amrywio o ran eu safon yn ogystal â'u cynnwys. Mae yma ganeuon sy'n addas i'w canu gan unigolion a phartïon o bedwar hyd 12 oed. Mae tinc a swm ffres i'r alawon ac mae dawn trin geiriau'r bardd a'i wreiddioldeb mor amlwg.

Cyhoeddiadau Curiad o Ben-y-groes sy'n gyfrifol am y gyfrol ac mae'r diwyg i'w ganmol. Un cwestiwn bach — pam hepgor y sol-ffa? Cywreinwydd un a fagwyd ar y Tonic!

Mae'r gyfrol yn awr werth am £5.25. Bargen os bu un erioed.

ARWEL JONES

oedd ar derfyn tir ei rieni. Enillodd hefyd wobwr Sain Ffagan am ysgrifennu hanes hen sinemâu, a bellach cafod wybod y bydd ei nofel ddiweddaraf, *Nes Adref*, Yn cael ei chyhoeddi y flwyddyn nesaf gan Wasg Carreg Gwalch. Mae'r nofel newydd yn ymwneud â chyfnod y llosgwyr ac yn canolbwyntio ar y rhai a gaethiwyd ar gam am y trosedd hwnnw. Mae bedd-ysbeilio yn rhan o wead y nofel, ac mae ynddi hefyd gath fawr ddu sydd yn rhydd yn y gymdogaeth.

Mae'r Gwalch yn ddiweddar wedi rhyddhau oddeutu pymtheg o lythyrau a dderbyniodd oddi wrth Simone de Beauvoir i'w bywgraffyddes, Deirdre Blair. Ei obaith yw y bydd y llythyrau yn hyrwyddo ymchwil Blair.

Mae gan Y Gwalch hefyd erthygl yn y rhifyn cyfredol o *Countryman* yn olrhain hanes ei ewythr, Ellis Williams, oedd yn Gaucho yn yr Ariannin. Adroddir amdano'n cael ei ymlid hyd at droedfrynau'r Andes gan ddihirod oedd yn hela gwyr ieuainc i'w gwerthu i fyddin yr Ariannin.

Dywed Y Gwalch iddo gael blwyddyn lenyddol lwyddiannus eleni gan iddo hefyd gael ei ethol i'r Academi ar sail, yn ôl yr enwebiad, 'your contribution to Welsh literature'.

DIOLCH



Dymuna Hefin Williams ddiolch am ymddiriedaeth yr etholwyr ynddo ar gyfer y Cyngor Unedol newydd. Bu'n aelod o Gyngor Llanddeiniolen ers pum mlynedd a Chyngor Arfon ers deunaw mis. Gobeithia allu ymweld â'r etholwyr ym Methel a Rhiwlas gan ddod i'w hadnabod yn

TYMOR Y CARNIFAL



well. Cysylltwch ag ef os gall eich helpu mewn unrhyw fodd. Ei gyfeiriad yw Ffiolau'r Grug, Cae Glas, Rhiwlas (01248) 352890.

Nyrs Ysgol yn Ymddeol

I BETTY PARRY

(ar ei hymddeoliad)

Bydd cof am ei mawr ofal; — holai hynt

Holl blant os yr ardal;
Iach enaid yn ei chynnal,
Y doniau da yn ei dal.


1995

Ieuan Wyn

Mae Mrs Betty Parry, Bontnewydd, wedi ymddeol wedi blynyddoedd o wasanaethu fel Nyrs Ysgol ym mro'r Eco. Roedd yn boblogaidd iawn ymhlith staff a disgyblion yr ysgolion a bydd chwith mawr ar ei hôl pan agorir drysau'r ysgol am dymor newydd. Dymunwn ymddeoliad hapus iddi.



Tasmia Bennett yn cyflwyno rhodd i Mrs Parry ar ran plant Ysgol Bethel.



Dim ond gobeithio nad oedd yr HARRIES tweed ynddo fo, Wil!

BARA DA!

Bu Huw Griffith o Fecws Eryri, Llanberis, yn llwyddiannus yn Sioe Fawr Llanfyllin yn ddiweddar. Enillodd dair gwobr gyntaf gyda'i fara brith, bara brown a thorth frith. Daeth adref â chwpian arian hefyd am fod y mwyaf llwyddiannus yn ei ddosbarth. Llongyfarchiadau mawr iddo.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

O SIAMBAR SELWYN

Fuo 'na Steddfod well? Rydwi wedi dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol fwy na heb dros gyfnod o drigain mlynedd, ac yn sicr fedra i ddim cofio Steddfod mor groesawgar, mor gyffrous ei seremonïau ac mor berffaith ei thywydd. Dim glaw (ar wahân i ddeigryn bnawn Sadwrn) dim gwynt a dim llwch. Pawb yn llosgi yn yr haul tanbaid, bois yr hufan iâ yn gwneud ffortiwn, a phawb yn ymfalchïo ym muddugoliaeth teulu Parc Nest. Fuo na Steddfod gyffelyb i hon? Naddo siwr, ac welwn ni run debyg iddi eto chwaith.

Mae gen i gof plentyn i mi fynd gyda fy mam i Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1935, i'r hen bafiliwn, a gweld Gwyndaf yn cael ei gadeirio (yr ieuenga rioed i ennill y Gadair Genedlaethol). Er i mi fynd am ddiwrnod i Fachynlleth yn 1937, does gen i fawr o gof am yr Ŵyl, — ond roedd mam yn hynod falch am fod Tomi Huws (T. Rowland Hughes) wedi ennill y gadair gan iddo fod am gyfnod yn gariad i Anti Kate (chwaer mam). Roedd y ddau yn gyd-fyfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, ac fe arferai T.R.H. ddod heibio Bethel, a rhoi 'Lift' i Anti Kate ar ei foto beic i'r coleg. Roedd gan mam 'geiniog' yn ei phwrs, a gadwai yn barchus — ceiniog a roddwyd iddi gan T. Rowland Hughes ar ryw achlysur a doedd y geiniog honno ddim i gael ei wario. Ys gwn i ble mae'r geiniog honno heddiw?

Cynhaliwyd Eisteddfod Hen Golwyn 1941 yn Neuadd yr Eglwys. Ches i ddim mynd i mewn ond mam a finna oedd ar flaen y ciw pe bai rhywun yn dod allan. Dyna pryd y gwelais i y bachgen byr cringoch o Fôn am y tro cynta rioed — Rolant o Fôn. Fo ennillodd y Gadair, ac yn ddiweddarach daethom yn gyfeillion agos. Do mi ges i nosweithiau difyr yng nghwmni Rolant — 'y gwylaidd pur o galon'.

Erbyn 1947 pan gynhaliwyd yr Eisteddfod ym Mae Colwyn — roeddwn i wedi dod yn eisteddfodwr am wythnos, ac yn aros o fewn galwad corn gwlad i'r maes.

O 1951 (Llanrwst) hyd eleni, dim ond pedair eisteddfod a fethais â mynd iddyn nhw, ac

mae gen i atgofion melyn am sawl prifwyl. Yr un criw ohonom fyddai'n mynd, a chan fy mod yn gweithio ymhob eisteddfod bron, chydig iawn o'r Babell Lân a gawn, ond roedd ein Pabell Lân answyddogol bob nos yn rhai bythgofiadwy.

Bu'r hen gyfaill ffraeth Alun Pierce Tremadog a minnau yn cyd-letya â'n gilydd ymhob E.G. am dros chwarter canrif. Byddem yn mynd o fewn mis i ddiwedd un Steddfod ar 'saffari' i chwilio am le i aros ar gyfer y nesa'.

Roeddem wedi sicrhau stafelloedd ar gyfer Prifwyl Llanrwst 1989 bron flwyddyn ymlaen llaw, ond yn Chwefror bu'r hen gyfaill ffyddlon Alun farw'n sydyn, a doedd o ddim hefo fi yn y cnawd i gyd-lawenhau yn Llanrwst — ond mi roedd o yno.

Fe enillodd Alun ar y limrig yn y Babell Lân unwaith, ac roedd o mor falch o'r anrhydedd fel na wnaeth o ddim trafferthu i newid y siec — dim ond ei chadw'n barchus. Dwi'n cofio'r limrig o.

*Wrth gychwyn i'r Steddfod eleni
Y gath aeth dan fonat yr Audi
Wrth ymyl Cwm Ann
Fe lithrodd i'r ffan*

*Ma'i chwyffon hi'n dal i fod gin i.
Fydd na'r un Steddfod yn mynd
heibio na fydda i a rhai o'r criw
yn sôn am Alun.*

Daeth tymor llwyddiannus John Gwilym fel Archdderwydd i ben eleni, a pha well diwedd glo i'w 'deyrnasiad'.

Mae'n debyg gen i na does na'r un Archdderwydd a gafodd yrfa mor liwgar â Trefin, a fu'n archdderwydd o 1960-62. Edgar Phillips oedd ei enw, ac fe enillodd o'r Gadair Genedlaethol

yn Eisteddfod Wrecsam 1933 am ei awdl ar y testun 'Harlech'. Clywed band yn mynd heibio i'w dŷ ac yn chwarae 'Gwŷr Harlech' a roes ysbrydoliaeth iddo i gyfansoddi'r awdl.

Mi driodd Trefin ddianc i'r môr pan oedd o'n ddeg oed. Mi fuodd o'n deiliwr am gyfnod, ac mi drwsiodd o gôt Bleriot, y gŵr cynta i groesi'r sianel i Ffrainc mewn eroplên.

Bu'n gweithio yn Peticoat Lane a chafodd gynnig priodi hefo Iddewes, a chael dwy siop gwerthu baco yn y fargen. Bu'n Bombardier yn y fyddin, a chysgodd yn Litherland yn yr un caban ag y bu Hedd Wyn ynddo. Bu hefyd yn gofalu am Oleudy Ynys Wyth am rai misoedd.

Pan enillodd o Goron Eisteddfod Môn aed ag ef i'r ddalfa, am fod dau blismon wedi amau mai Gwyddel o ddaliadau peryglus oedd o. Coeliwch neu beidio roedd o'n gaeth i 'snuff' (snisin).

Wedi ei ethol yn Archdderwydd, gwanhaodd ei ieuchyd ac roedd o wedi colli ei lais bron yn llwyr yn Eisteddfod Rhos 1961, a bu'n ofynol i William Morris leisio drosto.

Gŵr lliwgar yn sicr. Fe briododd deirgwaith — tair Saesnes. Ei drydedd wraig oedd yr awdures adnabyddus Maxwell Fraser, ac er fod cefndir y ddau mor wahanol roedd yr uniad yn ddelfrydol o hapus.

Dyma ran o'i gywydd enwog i Lys Aberffraw:

*Llys a'r ddor yn agored
Siriol lys â'i ddrws ar led;
Yma 'roedd gweision bonedd
O'u stôr yn arlwyio'r wledd —
Deunaw cog wrth dân cegin
A deunaw gwalch yn dwyn gwin.*

Ia, dwyn atgofion mae pob eisteddfod. Mi fydda i'n teimlo rhyw wacter ar ddiwedd pob un, ac yn clywed rhyw lais bach yn sisial — biti na fyddai'n para am wythnos arall.

On dyna fo, mae gen i un peth i godi nghalon — mae tymor y bêl droed ar gychwyn, ac mi fydda i yn clywed barddoniaeth wefreiddiol yn sŵn emynau'r Spion Kop, hefyd.

Nawdd i Eisteddfodau Llai

Am y drydedd flwyddyn yn olynol mae BT yn cynnig cymorth arianol i eisteddfodau bychain ym mhob rhan o Gymru.

Tra mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o'r gwyliau llai wedi dirywio.

Mae Menter Eisteddfodau BT, sydd wedi cyfrannu £30,000 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi helpu'n rhannol i atal y dirywiad yma.

Dywedodd Aled Lloyd-Davies: "Rhaid i ni beidio ag anghofio mai'r eisteddfodau llai yw asgwrn cefn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae cyfraniad BT yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gymorth mawr i'r gwyliau yma."


Dywedodd llefarydd ar ran BT: "Pan lansiwyd Menter Eisteddfodau BT yn 1993 cyhoeddwyd mai cynllun tair mlynedd fyddai hwn. Dyma felly flwyddyn olaf y nawdd sydd wedi bod mor boblogaidd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf."

Gan ymateb i geisiadau gan drefnwyr yr eisteddfodau, eleni rydym yn hanneru y swm sydd ar gael i eisteddfodau — hyd at uchafswm o £500, yn hytrach na £1,000. Fel hyn byddwn yn dwblu nifer yr eisteddfodau y gallwn eu cefnogi."

Gellir cael ffurflenni cais drwy ysgrifennu at:

Menter Eisteddfodau BT
PP 216
Cyfnewidfa BT
Ffordd Deiniol
Bangor
Gwynedd LL57 2RG

Dylid dychwelyd ffurflenni cais erbyn 30 Medi.



GWÊL Y
LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



'Un funud fach . . .'

TRO YN Y CWM

Hen bobol glên sydd yng Nghwm-deri. Chwarae teg iddyn nhw am gario bar y Deri Arms yr holl ffordd i'r Steddfod ym Mro Colwyn a chynnig sudd oren yn rhad ac am ddim i Steddfodwyr sychedig. A'r peth lleiaf fedrwn i ei wneud i ddangos fy ngwerthfawrogiad oedd taro i mewn am lymaid neu ddau bob tro yr awn heibio! Tua diwedd yr wythnos sylwais ar 'Holiadur Pobol y Cwm'. Teimlwn y dylwn geisio'i lenwi gan i mi fod mor barod i fanteisio ar groeso'r Deri.

Welsoch chi'r Holiadur? Pa gymeriad ydych chi'n hoffi fwyaf? Pa gymeriad ydych chi'n hoffi leiaf? Oes yna gymeriad yr hoffech chi ei weld yn dod yn ôl i'r Cwm? Roedd digon o gyfle hefyd i ddatgan barn ar rai o'r storïau a welwyd ar y rhaglen yn ddiweddar.

Ond yr adran olaf oedd y mwyaf trawiadol. Ynddi rhestrwyd nifer o broblemau cymdeithasol y gallai cymeriadau'r gyfres eu hwynebu. Pa gymeriad fyddai fwyaf tebygol o fod yn hoyw, neu'n alcoholig, neu o drosedd, neu o ddatblygu AIDS, neu o guro partner neu blentyn . . . neu gael troedigaeth grefyddol.

Ni ddylem synnu at yr awgrym a wneir yn yr Holiadur mai problem fawr yw troedigaeth grefyddol. Mae yna bobol sy'n credu mai rhyw aflwydd ydyw y dylid gochel rhagddo. Ac i fod yn deg â'r Holiadur, rhaid cofio bod yna brofiadau crefyddol sy'n ddigon od. Mae yna wedi'r cwbl bob math o grefydd a phob math o brofiad crefyddol.

Ond mae yna hefyd wir droedigaeth grefyddol sy'n rhoi bywyd a llawenydd a gobaith i bobol. Am hom yr oedd Iesu Grist yn sôn wrth ddweud pethau fel 'Rhaid eich geni chwi drachefn', ac 'Oddieithr eich troi a'ch gwneud fel plant bychain nid ewch i mewn i deyrnas Dduw'. Dyma'r troi sy'n gwella ac yn cyfoethogi ein bywydau. Y troi at Un sy'n gallu ein cysuro a'n nerthu â'i gariad a'i faddeuant. Y troi sy'n dod â ni i garu'r Iesu ac i ymddiried ynddo. Fuodd yna ryw beth fel y troi hwn yn eich profiad chi?

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Yn Ôl i Gôl ei Gartref: Ym Mehefin croesawyd y Ffisiliwr Cymreig, Jonathan Richardson yn ôl adref am seibiant wedi'i brofiad erchyll fel gwystl yn Bosnia. Bellach y mae Ffisiliwyr Cymreig yn ôl ar dir Cymru wedi chwe mis o wasanaethu hefo'r Cenhedloedd Unedig. Bu'r Croeso yn ôl i gôl ei gartref ym Mryn Hyfryd yn un cynnes a dwys, gyda'i - fam, Brenda ei frawd Ken a'i Nain yn falch fod y chwe mis cythryblus ar ben. Edmygir eich dewder a'ch gwasanaeth clodwiw i drueiniaid y Bolkans. Dymunir pob dedwyddwch i ti 'rwan Joni a phob dymuniad da i'w dyfodol. Croeso adra.

Yr Ysgol Gymuned: Croesawyd 20 o blant newydd eleni a dymunir pob hapusrwydd iddynt. Yr un yw'r croeso cynnes i Miss Jên Margiad Jones, athrawes newydd Blwyddyn 2 a 3 a Miss Nicola Davies, athrawes rhan amser. Dymunir pob hapusrwydd i Mrs Shirley Roberts ar ei hymddeoliad a phob llwyddiant i'r plant fydd yn cychwyn eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail.

Da clywed fod Mr Robert Humphreys, y Prifathro wedi gwella yn dilyn anhwylder i'w gefn. Pob dymuniad da i'r Ysgol yn ystod y flwyddyn hon.

Gwellhad: Dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Mr Stephen Roberts, 18 Bryn Tirion wedi damwain yn ei waith ac i Mrs Elinor Jones, Heatherbank, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir y cofion anwylaf at bawb arall sy'n sâl yn y pentref.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Williams, 15 Bryn Tirion ar golli perthynas annwyl yn y Waenfawr.

Croeso: Croeso mawr i Dewi, Mair, lolo a Guto sydd wedi ymgartrefu yn Llys Arddurn. Croeso hefyd i'r teulu bach sydd wedi symud i fyw i Tai Newyddion. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Gair o Ddiolch: Dymuna Mrs Eluned Porter ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiaid, anrhegion ac ymweliadau ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed a'i thriniaeth yn Ysbyty Lerpwl yn ddiweddar. Cofion annwyl atoch chwi a Mrs Nellie Roberts yn y Foelas.

Dymuna Sioned Wyn Jones a Nia Lewis ddiolch i bawb am y cardiaid a'r rhoddion ar achlysur dathlu eu penblwydd yn 18 oed.

Y mae Mrs Shirley Roberts yn dymuno diolch i bawb am y cardiaid, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad fel athrawes yn Ysgol Gymuned y pentref. Diolchir yn arbennig i'r rhai fu'n gyfrifol am wneud y diwrnod olaf yn un bythgofiadwy.

Casgliad tuag at y Cancr: Gwneud casgliad sylweddol o £121.68 o ddrws i ddrws gan Mrs Eirlys Jones, Gwynant a Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr. Diolchir i bawb am eu cyfraniad.

Sioeau: Llongyferchir pawb a fu'n llwyddiannus gyda'u hanifeiliaid a'u hadar yn yr amrywiol sioeau.

"Nid byd, byd heb Wybodaeth": Llongyferchir pawb fu mor llwyddiannus yn eu harholiadau Uwch a T.G.A.U. eleni. Dymunir y gorau i Sioned, Nia ac Osian yn yr amrywiol Golegau a phob llwyddiant i'r rhai fydd yn mynd i'r Chweched.

Dymuna'r disgyblion hyn ddiolch am bob arwydd o anogaeth a

chefnogaeth gan eu rhieni a'r athrawon ac am y llu cardiaid a rhoddion ar dathlu eu llwyddiant. **Cartref Newydd:** "Cae Eboni," yw cartref newydd Arwel, Carys, Olwen a Dafydd - a pha well enw o gofio mai dyma orffwysfan un o aelodau ffyddlona'r teulu am flynyddoedd sef yr hen geffyl addfwyn a chyfeillgar Eboni. Bob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd.

Ysgol Sul Bosra: Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn fore Sul Medi 10fed am 10.00 a.m. Croesewir aelodau newydd.

Llongyferchir Sioned a Bethan ar gael chwaer fach newydd, Catrin Heledd. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf, yn Llygad yr Haul a'r enillwyr lwcus oedd. 1af Dafydd Evans, Sycharth, 2ail Brenda Richardson, 3th Mathew Philips.

Taith - Cerdded Llwybrau: Bydd Taith Cerdded Llwybrau, nodedig yng ngofal Leslie Larsen fore **Sadwrn Medi 16** i gychwyn o iard yr Ysgol Gymuned am 10.00 a.m. Bydd stondinau a phaned yn y Neuadd wedi'r daith. Dowch i gadw'r llwybrau yn agored ac i glywed y storïau diddorol am y pentref hanesyddol hwn.

Ymddeoliad Hapus: Dymunir pob dedwyddwch i Arwel Jones ar ei ymddeoliad fel Prifathro Ysgol Bontnewydd. Wedi llwyr ymroddiad i'w staff a'i ddisgyblion bydd digon o amser ganddo 'rwan i wneud fel y mynno. Cofiwch wyllo 'Rownd a Rownd' ar y teledu efallai y gwelwch ef yno!

Wedi blynyddoedd o ymroddiad a chefnogaeth i genedlaethau o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, y mae Mr Richard Parry neu Dic fel y'i gelwir gan bawb, wedi penderfynu ymddeol. Bu'n athro Addysg Gorfforol, Ysgol Brynrefail am dros 30 mlynedd a bu'n gyfrwng i feithrin peldroedwyr ac athletwyr o fri. Y mae dyled y disgyblion a'r llu cyn-ddisgyblion i'w wasanaeth clodwiw a'i lwyr ymroddiad iddynt ac i'r Ysgol, yn ystod oriau ysgol ac wedi oriau ysgol a phenwythnosau, yn un **Fawr**. Ymddeoliad hapus a diolch Dic!

Plygu'r Eco! Gofynnir am wirfoddolwyr i blygu rhifyn Hydref o'r Eco yn **Neuadd yr Eglwys, Nos Iau, Medi 28ain**, o 5.30 p.m. ymlaen. Dowch i ysgafnhau gwaith y ffyddloniaid - fel arfer bydd y plygu wedi ei orffen erbyn 7.00 - 7.30 p.m. Diolch am eich cydweithrediad.


GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CHWILOTA

Cleddyf Celtaidd

Ym Mhenisarwaun



Fe fu'r tywydd yn rhy braf o lawer dros wythnosau'r haf i fentro i mewn i unrhyw archifdy nac amgueddfa lychlyd (a chwyslyd!). Bydd yn rhaid disgwyl am nosweithiau'r hydref a'r gaeaf i chwilota mewn hen ddogfennau. Roedd crwydo llwybrau a llethrau'r fro yn fendigedig. Trefnwyd nifer o deithiau cerdded yn ardal Llanrug, a daeth criw dethol a ffyddlon i ail-gerdded llwybrau llencyndod ac i ddarganfod rhai llwybrau newydd sbon. Ymwelwyd â Charreg Arthur ar lethrau'r Cefn Du; amgylchwyd hen blasdai Pantafon a Phlastirion, a dringwyd llethrau Dinas Dinorwig. Rhyfedd fel y mae cymaint yn galw'r hen gaer ar gopa Dinas Dinorwig yn *Roman Fort*. Dyna oeddwn innau'n ei galw yn blentyn hefyd, ac yno yr aem i gasglu colbs (mae tymor y rheini ar ein gwarthaf eto). Cofiaf hefyd glywed hen wraig o'r Waen, Penisarwaen yn sôn fel y byddai'r 'hen Romans' na yn dod i lawr o Ben Dinas i ddwyn oddi ar bobl Penisarwaen! Mor hawdd yw cymysgu cyfnodau mewn hanes.

Cleddyf Celtaidd ym Mhenisarwaun

Caer Ffos a Chlawdd o Oes yr Haearn yw Dinas Dinorwig. Mae'r safle yn un arbennig o dda, gyda llethrau serth ar yr ochr ogledd-orllewinol. Ar yr ochr honno mae'r unig fynedfa, er fod dwy fynedfa arall tu mewn i'r clawdd allanol. Mae tua 3 acer o dir o fewn y gaer. Mae'r clawdd allanol tua 55 troedfedd o led, ac yn cyrraedd uchder o 30 troedfedd mewn manau. Mae'r ffos ei hun tua 15 troedfedd o led. Mae tŷ ac adeiladau fferm Pen Dinas wedi difetha un rhan o'r gaer, a llawer o'r tir wedi ei aredig a'i drin dros y cenedlaethau. O fewn y gaer ei hun mae olion un cwt crwn yn parhau.

Aeth hanner can mlynedd heibio er pan fu cloddio archaeolegol yma, a chyhoeddwyd adroddiad ar y gwaith yn *Archaeologia Cambrensis* gan Dr Willoughby Gardner. Darganfuwyd pen gwaywffon o gyfnod Oes y Pres yma hefyd. Mae'n bosibl i'r Rhufeiniaid wneud peth defnydd o'r gaer mewn cyfnod diweddarach.

Yn ddiweddar cefais wybodaeth am ddarganfyddiad arall yn Ninas Dinorwig. Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug sy'n adrodd yr hanes: 'Yn gynnar iawn yn ystod fy amser fel Prifathro ysgol Cwm-y-glo, deuthum yn gyfeillgar iawn â'r diweddar Mr Arthur Hughes. Fe'i magwyd ar fferm Tan Dinas, wrth droed Dinas Dinorwig; y teulu wedi amaethu'r tir ers cenedlaethau. Mynychai Ysgol yr Eglwys yn Llanddeiniolen (Ysgol Llan).

Byddai plant y fro yn dod i Dan Dinas i chwarae a mwynhau eu hunain ar ôl oriau ysgol, ac yn aml iawn yn dringo i Ddinas Dinorwig i chwilio a chwilota. Un diwrnod darganfyddwyd cleddyf hirfain mewn agen sech. Roedd mewn cyflwr perffaith. Mae'n fwy na thebyg ei fod yno ers cyfnod y Rhufeiniaid neu'r Celtiaid, gan mai cleddyf hirfain oedd arf y Celtiaid (fe'i ceir yn hanes yr Alban — y claymore, cledd mawr). Holais Arthur beth tybed oedd tynged y cleddyf. Nid oedd ganddo y syniad lleiaf, ond fod un o'r bechgyn wedi

ei feddiannu a'i gludo adra.'

A dyna ddiwedd y stori. Wel, ddim yn hollol. Flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd Mr Williams yn teithio yn ei gar o Gapel y Cysegr i gyfeiriad y Llan. 'Codais y cyfaill Sam Williams i fyny (Sam Llan, neu Sam Pensarn i bobl Bethel) soniais wrtho am yr hanesyn diddorol o eiddo Arthur Tan Dinas. Oedd, roedd Sam yn y fan a'r lle pan ddarganfyddwyd y cleddyf. Gwyddai yn iawn ble roedd: mewn tŷ ym Mhenisarwaen. Cefais y cyfeiriad ac enw'r bobl oedd yn byw yno. Ond fel llawer o ffeithiau pwysig eraill, aeth y manylion ar goll.'

Felly, cyn belled ac y gwyddom, mae cleddyf Celtaidd Dinas Dinorwig yn parhau yng nghartref rhywun ym Mhenisarwaen. Wyddoch chi ble?

Llyn Wil Boots

Mae hanes Wil Boots y *Botanical Guide* yn eithaf cyfarwydd bellach, yn enwedig ei gysylltiadau â diflaniad a marwolaeth y Parch Henry Wellington Starr ar Glogwyn Llechwedd Llo ar Foel Cynghorion. Ond roedd hefyd wedi creu gwarchodfa natur ar gyrion pentref Llanberis, sef llyn artiffisial gyda ynysoedd bychan arno. Llyn Wil Boots oedd yr enw arno am flynyddoedd gan bobl Llanberis a'r cylch.

Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn,

Llanrug (ond yn wreiddiol o Lanberis) a dynnodd fy sylw at erthygl yn Saesneg yn adrodd hanes Llyn Wil Boots. Mae'r hanes i'w gael hefyd yn llyfr ardddechog Dewi Jones 'Tywysyddion Eryri' yng nghyfres Llyfrau Llafar Gwlad.

Bwriad Wil Boots oedd plannu nifer o redyn a phlanhigion prin eraill ar y mân ynysoedd er mwyn eu gwarchod rhag y casglwyr. Nid oes sicrwydd pa mor llwyddiannus fu'r hen Wil yn ei ymdrechion, ond parhaodd y llyn nes ei gladdu dan sylfeini ffordd osgoi newydd y pentref.

Byddai'n ddiddorol gwybod a oes gan unrhyw un o'r darllenwyr fwy o wybodaeth am Llyn Wil Boots. A fu rhai ohonoch yn chwarae yno'n blant? Oes llun ar gael ohono?

Moses Ship.

Daeth cais i law yn holi am fwy

o wybodaeth ynglŷn â chymeriad a elwid yn Moses Ship. Roedd yn byw yn Llwyn Onn(?) Llanrug. Credir ei fod ar un adeg yn pregethu. Roedd yn tyfu mefus yn ei ardd ffrynt — a'r rheini'n cael llonydd hefyd! A dyna'r ychydig wybodaeth sydd gen i ar hyn o bryd — os na all rhywun roi mwy o gnawd am yr esgryn sychion!

Pwy Oedd Hywel/Howel?

Yn atodiad i'w llythyr ar hanes yr Urdd yn Llanrug, mae Mrs Elizabeth Edwards yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â nifer o dyddynnod yn ardal Llanug a Phenisarwaen gyda'r enw 'Hywel/Howel' arnynt: Waen Hywel, Fron Hywel, Cae Hywel, Bryn Hywel, Pant Hywel ac Erw Hywel. Os oes unrhyw un â gwybodaeth anfonwch air neu cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Ffôn: (01286) 673515.

Dyddiau Cynnar Yr Urdd yn Llanrug



PARTI CÂN ACTOL ADARAN LLANRUG 1930

(O'r chwith i'r dde): John Wyn Owen, Llain Delyn a John Dewi Evans, Rhos Rhug. (Yn sefyll): John Bracegirle, Ceulan; Joe Williams, Derlwyn; Idris Wyn Owen, Llain Delyn; Meurig Owen, Isallt. (Yn eistedd): Gilbert Hughes, Llys Forgan; H. Watcyn Jones (athro); Cledwyn Edwards, Rhos Ddu (Capten).

Daeth dau ymateb ymhell o ffiniau bro'r Eco i erthygl Mrs G. M. Jones am hanes cynnar yr Urdd yn Llanrug. Mrs Elizabeth Edwards, Carmel, Treffynnon anfonodd y llun, sef parti Cân Actol buddugol Adran Llanrug yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaernarfon yn 1930. Roedd ei diweddar wr, Cledwyn Rhos Ddu, yn unawdydd yn y parti. Fel hyn mae Mrs Edwards yn adrodd yr hanes:

'Roedd Cledwyn yn aelod o Adran Llanrug. Yn Eisteddfod yr Urdd, Caernarfon 1930, enillodd Cledwyn ar ganu unawd, a llyfr oedd ei wobwr. Cafodd y llun a'r llyfr eu dangos mewn arddangosfa yng Nghorwen i ddathlu pen-blwydd yr Eisteddfod. Enillodd Adran Llanrug ar y Gân Actol hefyd. Cledwyn oedd capten y llong, ac yn canu'r unawd. Mr Watkin Jones

oedd yn eu dysgu. Daeth Cledwyn yn ail ar yr unawd yn Eisteddfod Machynlleth 1932 hefyd.'

Mr Meurig Owen, Llundain, anfonodd yr hanes canlynol am ddechreuad yr Urdd yn Llanrug. Mae yntau hefyd yn sôn am y Gân Actol fuddugol, ac yn medru enwi'r holl aelodau, gan ei fod ef ei hun yn rhan o'r criw. Teg nodi mai un o'r gweithwyr diwyd ynglŷn â gweithgareddau'r Urdd yn Llanrug yn y cyfnod hwn oedd mam Mr Owen, sef Mrs Laura G. Owen. Dyma ei atgofion am y dyddiau cynnar rheini:

Mrs Gwladys M. Jones, oedd Cadfridog cyntaf yr adran. Credaf nad oes gwell lle i gychwyn hel atgofion na gyda rhai o'r lluniau a ymddangosodd yn yr Eco yng nghwrs y flynyddoedd. Yn rhif 12, Chwefror 1977 ceir y darlun cyntaf

o'r adran, 27 o aelodau yng nghardd Tyddyn Rhythallt gydag enwau pawb, a gallaf dystio fod rhestr Mrs E. Whiteside Thomas yn gywir. Dangosir y flwyddyn fel 1927 ond mae gennyf le i gredu ei bod yn gynnarach. Ni chofiaf beth oedd ar y lechen a ddaliwn, 'Adran Llanrug, Urdd Gobaith Cymru' a'r dyddiad debyg. A ellir darllen yr ysgrifen oddi ar y llun gwreiddiol? Gwelwch mai y plant yn unig sydd yn y llun, y syniad oedd mai yr aelodau a drefnai'r gweithgareddau gyda chymorth oedolion, a chawsom gymorth Owen Thomas a Mrs Laura G. Owen gyda'r gwaith, fel y soniodd Mrs Jones.

Dydd mawr oedd hwnnw pan gawson faner yr adran. Dewisai yr adran y lliwiau i ymddangos ar yr ochrau y pen a'r gwaedod, a deuai'r defnydd gyda chanol gwyn y faner yn dangos bathodyn yr Urdd, yr enw a'r ddraig goch ym mhob cornel. Cofiaf fy mam yn gwio y faner at ei gilydd ac yn gweithio yr enw 'Llanrug' mewn sidan ar ei phen. Credaf mai yn 1927 yr oedd hyn ac i gynrychiolwyr o'r adran, gyda'r faner, orymdeithio yng Nghaerdybi i gyfarfod yr Urdd yno ar 2 Awst 1927. Nis gallaf fod yn hollol sicr o hyn gan fy mod i yn rhy ifanc i orymdeithio. Beth bynnag am hynny ni chariwyd baner Llanrug mewn unrhyw orymdaith heb fod sypyn o rug wedi ei glymu am y ddau bolyn.

Dyna oedd y drefn pan orymdeithiwyd yn y dref o'r orsaf i'r castell yng nghyfarfod cylch Caernarfon yn 1928,

Yn Awst yr un flwyddyn trefnwyd Gwersyll cyntaf bechgyn yr Urdd yn Llanuwchllyn. Aeth pedwar o hogiau o adran Llanrug yno. Yr oedd ar gael luniau o'r pedwar gyda'i kitbags ar orsaf Pontrythallt cyn cychwyn am y gwersyll.

Y pedwar oedd Dick Francis Roberts, Waen Hywel; Owen Glyn Williams, Arfryn; Gwilym Frank Hughes, Bod Ifor ac Emrys Owen, Isallt. Cynhaliwyd gwersylloedd yn y blynyddoedd wedyn yn Llangollen a bu bechgyn Llanrug yno hefyd.

Dyma'r amser y paratowyd gwisg i'r aelodau, y bechgyn yn unig i ddechrau. Crys gwyrdd, tei

coch a gwyrdd a throwsus byr neu laes o ddefnydd llwyd. Ni orfodid y wisg ar neb ond disgwylid i fechgyn y gwersyll wisgo'r crys gwyrdd. Ni fu'r genethod yn hir cyn cael gwisg a gwersyll eu hunain.

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghorwen, y dramâu ar 31 Mai a'r eisteddfod ar 1 Mehefin 1929. Nid oes gennyf gof a gynrychiolid adran Llanrug a'i peidio yn yr Eisteddfod ond daeth un wobwr gyntaf i ni beth bynnag. Enillwyd y wobwr am liwio darlun i rai dan ddeg oed, yr oedd y wobwr yn un driphlyg, llyfr Cymraeg, tystysgrif a seren lliw aur i roi ar y faner. Gwaith cain o Wasg Gregynog oedd y dystysgrif ond yn nhreiglaid y blynyddoedd aeth ar gyfeiliorn, a chollwyd gwrthrych tra gwerthfawr.

Ond fe fu gryn dorchu llewys ar gyfer Eisteddfod Caernarfon, 1930. Cynyddodd nifer yr aelodau a'r oedolion oedd yn cynorthwyo trwy baratoi'r plant ar gyfer y cystadlaethau, 'cefnogwyr' oedd eu henw swyddogol, a bathodyn canol gwyn ar eu cyfer. Rhaid oedd gweithio gan fod dau o oedolion yr adran yn Swyddogion yr Eisteddfod. Yr oedd deuddeg o swyddogion gan gynnwys y sylfaenydd, Ifan ab Owen Edwards; Miss Annie Roberts, Llanllyfni, yr ysgrifennydd; y Parch. J. H. Williams, (Canwy), Y Graig y cannodd R. Williams Parry ei soned 'Y barchus arswydus swydd' iddo; Mri. W. Gilbert Williams, Rhostryfan; O. Llew Owain, Caernarfon; R. H. Roberts, Garndolbenmaen; Ellis Roberts, Glynteg, Bangor; Meredydd Hughes, Caernarfon; ac o Lanrug G. T. Roberts a Mrs Laura G. Owen. Mae eu llun yn Hanes yr Urdd, y gyfrol gyntaf, ond ni wn pwy oedd y ddau arall.

Hyfforddwyd partion, corau, dramâu ac unigolion. Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud fod drama plant o'r Ysgol Ganol, 'Syr Galahad' wedi mynd i'r prawf terfynol ond heb ennill y llawryf. Bu'r eisteddfod ar y ddau ddydd olaf yn Mai yn llwyddiant tu hwnt i bob disgwiliad, nifer fawr yn cystadlu fel y bu trefnu rhagbrofion yn dasg anodd. Cofiaf fod gyda thwr yn hen ystafell 'Feed my

Lambs' gyferbyn a'r Ysgol Rad, mewn rhagbrawf adrodd 'Rhannu'r Cnau', ond ni chefais i na llwyfan na chnau y diwrnod mawr hwnnw!

Gorymdeithiem o'r orsaf i'r Pafiliwn o dan ein baneri, a thair seindorf, Deiniolen, Cynfi yr adeg honno, Llanrug a Chaernarfon. Ataliwyd pobpeth bron yn y dref ar 31 o Fai 1930. Bu'r adran yn eithaf llwyddiannus yn yr eisteddfod a phrawf o hyn yw'r faner a ymddengys yn y llun ohonom a gyhoeddwyd yn yr Eco, rhif 25, Ebrill 1978, mae arni 17 o sêr, o dynnu allan un Corwen enillwyd 16 o wobrwon. Nifer dda iawn i adran bentref, os cofiaf adran Ysgol Sir Penygroes oedd ar y blaen. Ni chyfrais yr aelodau yn y llun ond yr oedd nifer go sylweddol ohonom gyda'r ddau fu yn ein cynorthwyo o'r dechrau, Mrs L. G. Owen ac Owen Thomas. Mae un arall yn sefyll ar y chwith yn y cefn, H. Watcyn Jones, ein cyfeilydd, un o Lanberis ac athro yn Ysgol Llanrug ar y pryd.

Mae tystiolaeth bendant i

lwyddiant dau o'n partion yn yr Eisteddfod, lluniau eto yn yr Eco. Yn rhifyn 52, Hydref 1980 mae llun wythawd y genethod gyda William Jones, Tegfryn, yr hyfforddwr, un arall o gefnogwyr yr Urdd. Ceir eu henwau ar gof a chadw. Enillwyd ar y Parti Cân Actol i fechgyn ar ganu 'Santiana', trefniant a geiriau yr Athro Glyn Davies o Gerddi Huw Puw. Fel 'hauling shanty' y trefnodd yr athro yr hen shanty hon, yr oedd gennym raff i'w thynnu gyda'r gerddoriaeth. Y swyddog oedd yn canu'r alaw a ninnau'n y corus. Rhaid cydnabod yn awr fod y swyddog wedi ei wisgo fel pe mordwyem i Fôr y Canoldir tra mae'r criw yn barod i wynebu stormydd yr Horn! Beth bynnag am hynny cyrraeddasom yr harbwr a'r wobwr gyntaf.

Ar y nodyn yna o lwyddiant, gwell i mi adael yr atgofion, gobeithiaf y ceir mwy o wybodaeth am enillwyr y sêr eraill. Hyfryd yw darllen am lwyddiant aelodau presennol yr adran yn yr eisteddfod — daliwch ati.'

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partion, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

★ Tacsï

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263



Mr Bob Thomas, sy'n ymddeol ar ôl 24 blynedd fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanrug.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Ann ac Irfon Thomas, Buarthau, ar ddatlu eu Priodas Arian. Pob dymuniad da oddi wrth Ffion a Haf a'r teulu oll, a'u ffrindiau pluog!

Diolchiadau: Dymuna Mrs Bet Jones, Lyndale, ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati pan fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch yn arbennig i'r plant am eu gofal am yr hen. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Grŵp Cyntaf o Brownies Llanrug ddiolch yn fawr iawn i drigolion Hafan Elan am ganiatau iddynt wneud tē yn eu canolfan. Braff iawn oedd i'r plant gael cyfle i roi o'u hamser i'r rhai hyn ac fe ddiolchwyd iddynt drwy wneud casgliad tuag at eu grŵp.

Plaid Cymru: Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Cangen Llanrug nos Fercher, Gorffennaf 12. Cafwyd adroddion am y flwyddyn gan y swyddogion, a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Yn dilyn eu llwyddiant eleni, ail-etholwyd y swyddogion: Cadeirydd Phyllis Ellis; Ysgrifennydd: Olwen Llywelyn; Trysorydd: Meirion Lloyd. Derwiswyd pwyllgor newydd, a chynrychiolwyr y gangen ar y Pwyllgor Rhanbarth a'r Cyngor Cenedlaethol. Llongyfarchiadau i Meirion Lloyd ar gael ei dewis i gynrychioli Pwyllgor Rhanbarth Arfon ar y Cyngor Cenedlaethol.

Erbyn hyn, lluniwyd drafft o raglen ddiddorol ac amrywiol ar gyfer 1995-6, gan ddechrau ym Mis Medi. Nos Wener, Medi 29ain, fe gynhelir Dydd Agored (10 a.m. — 4 p.m.) yn y Swyddfa yng Nghaernarfon, a bydd croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i Cliff a Vera Williams ar ddod yn daid a nain.

Llogyfarchiadau lawer i Einir Oarry, Morawel ac Euros Davies ar eu priodas. Byddant yn cartrefu yn Y Ffôr.

Enillwyr y Clwb Cant: 1. Beti Peris Jones; 2. Olwen Llywelyn.

Ymchwil Y Galon: Cynhaliwyd casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, wedi ei drefnu gan Gangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl y Galon. Bu'r ymateb yn dda iawn. Cyfanswm y casgliad oedd £3,815.07. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r casglwyr a phawb am eu cyfraniad. Dyma fel y casglwyd ym mhentrefi bro'r Eco:- Dinorwig £84.70, Deiniolen £152.35, Penisarwaun £93.07, Brynrefail £5.23, Nant Peris £17.74, Cwm-y-Glo £49.01, Llanrug £371.10, Llanberis £295.20, Caeathro £44.03, Rhyd Ddu £32.87, Waunfawr £290.45, Bethel £181.24, Llanddeiniolen £70.93.

Bydd cardiau Nadolig Ymchwil y Galon ar gael o ddiwedd Medi gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glaffynnon, Llanrug. Ffôn: (01286) 674385.

Rhaglen Flynyddol Merched y Wawr: Medi 12, LLWGU YN MHENLLŶN gyda Mr Harri Parri. Hydref 3, Ymweliad â Theatr Gwynedd i weld 'William Jones'. Tachwedd 14, ADDURNIADAU NADOLIG gyda Mrs Cerid Mackinnon. Rhagfyr 12, Y STORI Y TU ÔL I'R GÂN gan Mr Arwel Jones, hefyd mins peis a phwsh. Ionawr, CASGLIAD O BOTELI gan Mr H. Gwynfa Roberts. Chwefror 13, IECHYD MERCHED A CHYFFURIAU gan Mrs ffion Johnson. Mawrth 12, DATHLU GŴYL DDEWI. Ebrill 16, CERDD DANT yng nghwmni Mrs Catherine Watkin. Mai 14, BASGEDI CRÔG arddangosfa gan Mr Richard Owen a CHYFARFOD BLYNYDDOL. Mehefin 11, TAITH I BENLLŶN a phryd o fywyd.

Gobeithir trefnu bws i Theatr Gwynedd ar Hydref 3ydd a gall



Siân Jones, Minfordd Terrace a Morfudd Jones, Bwthyn Bryn Coch a dderbyniodd eu diplomau mewn nysio o'r Brifysgol. Mae'r ddwy bellach yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd.

unrhywun nad yw'n aelod ymuno â ni. Enwau i Meinwen Lloyd (Ffôn: 675359), Mary Roberts (Ffôn: 675385) neu Margaret Parry (Ffôn: 676735) erbyn Medi 26ain.

CROESO CYNNES I AELODAU NEWYDD. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug.

Dymuniadau gorau i bobl ifanc y pentref sydd yn cychwyn ar yrfa newydd drwy fynd i golegau a swyddi y mis yma. Llongyfarchiadau hefyd i bawb ar ganlyniada ardderchog T.G.A.U. a lefel A.


Brysiwch Wella:

— Mrs Bet Jones, Lyndale. Deallwn nad yw hi'n dda iawn eto.

— Mr Gwyn Cadwaladr, Gwêl Fynydd, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlwm â Mrs Eileen Jones, 60 Glanffynnon, a'r teulu, ar golli mam a nain annwyl yn ddiweddar. Bu farw Mrs Mari Jones, Bryn Hyfryd, Ffordd yr Orsaf ar Awst 4ydd ac anfonwn ein cydymdeimlad i Gwynfor a'i deulu.

Caws a Gwin Cynhelir noson Caws a Gwin yng Nghaernarfon Hafan Elan ar nos Wener, Tachwedd 24ain, 1995 am 7.00 p.m. Bydd elw'r noson at Eglwys y Plwyf.



Karate: Enillodd Marvin Pritchard, 9oed, o Fro Rhythallt fedal aur mewn cystadleuaeth Karate yn ddiweddar. Cafodd Marvin gryn lwyddiant ers iddo gychwyn gyda Karate rhyw 10 mis yn ôl gan ennill belt felyn yn barod. Bydd yn cystadlu eto yn y dyfodol agos a dymunwn bob lwc iddo yn y cystadleuthau hynny.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr



STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

yn Neuadd Ysgol Brynrefail
Nos wener, Hydref 13eg,
1995 am 5.30 p.m.

Y Cyfansoddiadau Llennyddol
i'w hanfon i mewn i
Mr Rolant Wynne
Fron Hyfryd, Ffodd yr Orsaf,
erbyn nos Fercher
Medi 27ain.

NOSON CELF A CHREFFT
Nos Lun, Hydref 9fed
6.00 — 6.30 p.m.
yn yr Ysgol Gynradd

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau


44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Wythnos Carnifal Llanrug



Rhai o'r cystadleuwyr ar ddiwrnod y carnifal.

Dydd Llun: Dechreuwyd gweithgareddau'r wythnos drwy gynnal Ras Hwyl o amgylch y pentref. Cychwynwyd y Ras o faes parcio Glyntwrog gan Mr Hefin Jones, Pantmwyn. Roedd deuddeg tîm yn cystadlu a'r enillwyr oedd Steven ac Aled. Jacke a Carolyn a dderbyniodd y wobwr gysur. Gorffennwyd y Ras ym Mhenbont ple roedd lluniaeth wedi ei darparu gan Jackie a Dave. Beirniadwyd y wisg ffansi gan Mr a Mrs Griff Roberts ac enillwyd y wobwr gan Wendy a Geraint. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i Mrs Meirwen Williams, Siop Spar, am roi diod i'r cystadleuwyr tra'r oeddynt yn rhedeg.

Dydd Mawrth: Cafwyd noson o ddartiau ym Mhenbont. Cystadlaethau '501' rhwng cwplau oedd y gêm. Yr enillwyr oedd Huw a Wena yn erbyn Dylan a Morfudd. Rhoddwyd gwobrau'r gystadlaethau gan Jacke a Dave.

Dydd Mercher: Noson o chwilio am gliwiau yn yr Helfa Drysor, a oedd wedi ei threfnu gan Pete a Liz Roberts, Caernarfon. Cychwynnodd yr Helfa o Benbont (gyda rhai pobl yn mynd y ffordd anghywir o'r dechrau!) ac wedi rhyw 20 milltir fe gyrhaeddodd pawb yn ddiogel i'r Gors Bach, Llanddeiniolen, am bryd o fwyd. Yr enillwyr oedd (wedi ateb cwestiwn) oedd Liz & Co; yn ail daeth Kevin, Sharon, Ali a Dylan. Aeth y wobwr gysur i Gethin a Kath. Diolch yn fawr Liz a Pete am noson dda iawn.

Dydd Iau: Cafwyd noson lwyddiannus arall yn yr Ysgol Gynradd — y neuadd yn llawn o bobl a phlant yn

chwarae Tombola. Mr Prys Jones oedd yn galw'r rhifau gyda Mr Griff Roberts a Mr Wavell Roberts yn cynorthwyo i wirio'r gêm. Diolch i ferched y gegin am eu hamser yn paratoi'r baned a'r bisgedi.

Dydd Sadwrn — Diwrnod y Carnifal: Cychwynnodd yr orymdaith o Bont-rhythallt am 1.30 p.m. gyda Genod y Tir ar y blaen gyda'r gerddoriaeth — yn anffodus ni allai'r Seindorf fod yn bresennol eleni ond mwynhawyd eu cerddoriaeth ar iard yr Ysgol yn ystod y pŵn.

Dechreuodd y beirniadu am 2.15 p.m. a'r beirniaid oedd lestin Galick, Rhys Parry Jones a Lydia Llywyd Parry (Llew a Ffiona yn Pobol y Cwm). Mr Rolant Wyn oedd wrth y meic yn cyflwyno'r cystadleuwyr ac yn cyhoeddi'r enillwyr. Diolch yn fawr iawn iddo a'r beirniaid am eu gwaith ardderchog drwy'r prynhawn.

Dyma ganlyniadau'r gwahanol gystadlaethau:

Tablo Stryd: 1, Hen Wraig Fach a'i Hoesgid. Beic neu bram wedi eu haddurno: 1, Susanne Thomas; 2, Emma a Llifon.

Dan 3 oed, unrhyw wisg: 1, Bo Pee a'i Dafad (Debbie a Nicola); 2, Fred Flintstone (Nathan Thomas).

Dan 3 oed, hysbyseb: 1, Milky Bar Kid (Sam Markham).

Genethod 3-5 oed, unrhyw wisg: 1, Môr Forwyn (Lisa Williams); 2, Clown (Ffion Angharad).

Bechgyn 3-5 oed, unrhyw wisg: 1, Tony the Tiger (Declan Jones); 2, William Hague (Gerallt Roberts).

Genethod 6-8 oed, unrhyw wisg: 1, Brenhines ar Geffyl (Emma Williams); 2, Bet Lynch (Emma Smith).

Bechgyn 6-8 oed, unrhyw wisg: 1, Dyn Tywydd (Kelvin John Edwards); 2,

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Ffestri, Nos Iau, Gorffennaf 6ed dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir.

Roedd y defosiwn dan arweiniad Mis Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian. Croesawodd y llywydd nifer o frodyr a chyfeillion a oedd wedi ymuno gyda'r chwiorydd yn y cyfarfod ynghyd â'r gŵr gwadd, Mr Norman Williams, Godre'r Coed. Testun ei sgwrs oedd y diweddar Barch Tom Nefyn Williams a hynny yn bwrpasol ym mlwyddyn dathlu can mlynedd geni y pregethwr a'r cymwynaswr nodedig a fu'n gymaint o ddylanwod ar fywydau llaweroedd.

Cafwyd noson fendithiol ynghyd â chanu effeithiol ar rai o hoff emynau Tom Nefyn. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mr Williams gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog.

Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Dwynwen Williams, Mrs Jennie Maxwell a Mrs Ellen George. Llawnwyd oedd gweld Mrs Betty Owen, Tros yr Afon yn y cyfarfod ac wedi cryfhau mor dda ar ôl ei thriniaeth lawfeddygol. Afonwyd cofion at Mrs M. Closs Parry, Bryniol a dymuno gwellhad buan iddi wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 7fed, pryd y disgwylir Miss Eleri Roberts, Y Groeslon i roi sgwrs am ei gwaith fel Gweithiwr Cymunedol Eglwysig yng Nghanolfan Noddfa, Caernarfon.

Dyweddiad: Llongyfarchiadau i Einir Gwyn, merch Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Rhandir ar ei dyweddiad ar

Powder Rangers (Ben, Ian a Cai). Genethod 9-11 oed, unrhyw wisg: 1, Priodferch (Kimberley Allen); 2, Dydd a Nos (Llio Angharad).

Bechgyn 9-11 oed, unrhyw wisg: 1, Mask (Gary Wyn Jones); 2, Mr Motivator (Phillip Lynes).

Plant 6-8 oed, hysbyseb: 1, Paxo (Guto Rhun); 2, Milky Bar Kid (Daniel Jones).

Plant 9-11 oed, hysbyseb: 1, Persil (Siôn Emyr); 2, Estee Lauder (Geraint Iwan).

Plant 12-16 oed, cymeriad teledu: 1, Absolutely Fabulous (Nicola Edwards). Tlws am y cymeriad unigol gorau: Emma Williams.

Dros 16 oed, unrhyw wisg: 1, Penguin (Jackie Roberts).

Cwplwl wedi eu gwisgo orau, unrhyw oed: 1, Sali Mali a Jac y Jwg (Rhian a Gwenno Jones).

Nain Fwyaf Deniadol: Mrs Katie Lewis, Rhosgadfan.

Fferau mwyaf siapus: Nicola Edwards.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Williams,
Glanrafon, Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Nia Hughes, 17 Dôl Afon, ar ennill gradd B.A. gydag anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Bangor.

— i Miriam Llywelyn, 'Rallt Deg, ar ennill y wobwr gyntaf am ysgrifennu Drama yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn.

— i Delyth ac Arfon 16, Dôl Afon ar enedigaeth mab, Dafydd Arfon, brawd bach i Siôn Arfon.

— i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Awst 5ed â Geraint, mab Mrs Beryl Jones a'r diweddar Mr Gwyn Jones, Rhiwfelen, Eglwysbach.

Genedigaeth: Croeso i Catrin Heledd, merch fach a anwyd i Carys a Dafydd Williams, Meini Gleision a chwaer fach i Sioned a Bethan.

Penblwydd: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Violet Roberts, Deiniol House ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Awst 25ain.

Dymuna ddiolch yn fawr iawn i berthnasau a chyfeillion am bob caredigrwydd ac am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd trefn yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn am y Suliau nesaf:

Medi 10, Parch S.O. Hughes, Bethel (5.30)

Medi 17, Parch Emrys Thomas, Caernarfon(2)

Hydref 1, Mr Tom Herbert, Penygroes (10)

'Knobbly Knees': Mrs Gloria Roberts.

Roedd amryw o weithgareddau eraill ar yr iard: taflu arian i bwlw dŵr, taflu peli; enwi'r clown, castell neidio, raffl, barbeciw, dynes dweud ffortiwn, stondin gacennau, ac ati.

Paratowyd lluniaeth yn yr Ysgol gan aelodau bwyllgor y Ganolfan Gymuned. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith o gymeryd ychydig o'r pwysau oddi ar ysgwyddau pwyllgor y Carnifal.

Enillwyr y raffl oedd — £20: Rhif 501-505; £10: Mrs Sandra Johnstone; Cas coban: Mrs Carys Wynne; Siocled: Mrs Marian McGuinness. Enillydd dewis diwrnod o ddyddiadur oedd Mr Gwilym Parry. Enillwyd enw'r clow (Humphrey) gan Debbie Hughes.

A wnaiff y sawl sydd yn berchen ar y tocyn 501-505 y raffl gysylltu â Mrs Lynda Jones ar 672881 i gael eu gwobr (rhaid cael eich tocyn cyn cael yr arian).

Dymuna aelodau pwyllgor y Carnifal ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau: Mr Martin Gardiner, Becws Bryngwyn; Mr Stan Jones, Tyddyn Corn, Pontrug; Miss Beryl Thomas, Swyddfa'r Post; Di-enw £20.

Diolch yn arbennig i Mrs Helen Lewis, gofawraig yr Ysgol Gynradd, am ei gwaith nos Iau a ddydd Sadwrn; ac i Mr John Markham am ofalu am y llwyfan a'r offer sain.

Rhaid i ni beidio anghofio'r rhieni am eu gwaith caled yn gwisgo eu plant (a hwy eu hunain!) i wneud y Carnifal yn mor llwyddiannus. Diolch i'r holl bentrefwyr am eu cefnogaeth trwy gydol yr wythnos.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



Y Beirniaid yn crafu pen wrth geisio dod i benderfyniad yn y Carnifal.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn. Mis Gorffennaf — £35: M. Price, 28 Dôl Elidir (36); £25: G. Roberts, Hyfrydle (48); £15: S. Pepper, Brynrefail (22); £10: J. Vaughan, 1 Rhesdai Cambrian (87); £5: Dr G. Williams, 3 Preswylfa (30). Pelen eira — £50: W. Jones, Y Dreflan (170); £50: C. Williams, 6 Rallt Goch. Mis Awst — £35: John Pike, 2 Bryn Hyfryd (37); £25: S. Allsup, 15 Stryd Ceunant (184); £15: M. Price, 28 Dôl Elidir (36); £10: Dr G. Williams, 3 Preswylfa (80); £5: M. Toleman, 10 Maes Padarn (74).

Yr Ysgol Feithrin: Yn festri Capel Coch ar fore Mercher, 21 Mehefin, cynhaliwyd Bore Coffi a chanu nodedig gan blant yr Ysgol Feithrin. Casglwyd £235.31 i gronfa'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Dymuniadau gorau i'r plant a fydd yn dechrau yn Ysgol Dolbadarn eleni.

Pêl-droed pump-bob-ochr: Llongyfarchiadau i Elin Harding, Mari Harding, Claudia O'Donnell, Claudette Fleming a Diana Roberts am fod yn bengampwyr Gwynedd o dan 13 oed, mewn cystadleuaeth a gymerodd le yn ddiweddar ym Mangor. Enillodd y genod pob un o'u gêmiau i ddod ar frig eu cynghrair, ac yn y gêm derfynol fe enillwyd drwy ciciau cosb.

Cyfeillach Capel Jerusalem: Yng nghyfarfod mis Awst, o dan lywyddiaeth Mr Robert Thomas, cafwyd sgwrs addysgiadol a diddorol gan Mr a Mrs Griffith Hughes o St. Johns, Newfoundland. Ymfudodd Griff o Lanberis i St. Johns dros chwarter canrif yn ôl ond mae Pearl yn enedigol o'r ynys. Diolchwyd i Mr a Mrs Hughes gan Mr Hugh R. Jones ac yn dilyn, dros luniaeth a ddarparwyd gan y chwiorydd, cafwyd trafodaeth fywiog braf. Cynhelir y cyfarfod nesaf bawn Mawrth, 5 Medi, pryd y disgwylir Mrs Nellie Williams i roi sgwrs inni ar 'Hen Gapel Clegir' a Mr Hugh R. Jones ar 'Hen Gapel Hebron'.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Mae mis Gorffennaf fel arfer yn fis gweddol ddistaw i'r côr gan fod cymaint o'r aelodau ar eu gwyliau. Cynhaliwyd pedwar cyngerdd yn ystod mis Mehefin — dau yng Ngwesty'r Fictoria, un yn Nefyn, ar llall yng Nghwm Nantcol, ger Llanbedr.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y côr yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Lun, 10 Gorffennaf, ac fe etholwyd y swyddogion newydd. Ailetholwyd Ifor Jones yn Ysgrifennydd; Gwynfryn Griffith yn Gadeirydd; ac Idris Evans yn Drysorydd. Medwyn Roberts fydd yn gyfrifol am ddillad y côr ac fe ailetholwyd Roy (Bwtwm Top!) Griffith fel trefnydd llwyfannu. Ailetholwyd Tecwyn Roberts, Medwyn Roberts, Goronwy Lewis a Dafydd Hugh ar y pwyllgor llywio. Diolch i'r cyn-swyddogion am eu gwaith diflino a dirwgnach yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Dymunir pob dymuniad da i Arwel, ein harweinydd, ar ei ymdeoliad o'i waith fel prifathro — bydd ganddo fwy o amser i'n 'colbio' ni o hyn ymlaen!

Goronwy Lewis

Llongyfarchiadau i Robert Elwyn Griffiths (5 Stryd Ceunant gynt), Bod Eilian, Stryd Dinorwig, Caernarfon, ar basio arholiad yr Orsedd mewn llenyddiaeth ar gyfer y wisg las. Cafodd ei urddo yn Eisteddfod Bro Colwyn.

Priodas: Yng nghapel Jerwsalem, Bethesda, ddydd Sadwrn, 29 Gorffennaf, priodwyd Keith Arwel, mab Mr a Mrs Gwilym Jones, 17 Dôl Eilian (gynt o 88 Maes Padarn) â Sioned Mai, merch Mrs Marion Hughes a'r diweddar Mr Meirion Hughes, 7 Penrhyn Terrace, Bethesda. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.



Keith a Sioned

Diolchiadau

Dymuna Dafydd, Llion, Lliwen a Llinos a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Rydym yn ei werthfawrogi yn fawr iawn a'r rhoddion ariannol a ddaeth i law. Rydym am drosglwyddo'r arian er cof am Joan i'r Feddygfa, Llanberis; Ward MacMillan (Ysbyty Bryn Seiont); a chynllun 'Hospis yn y Cartref'. Diolchwn i'r Parchg John Pritchard am wasanaeth yn ôl dymuniad Joan, ac i Myrddin a Gwynfor am y trefniadau.

Dymuna Beth Hughes, 18 Stryd y Wyddfa, ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed.

Dymuna Delyth Hughes, Fron Goch, ddiolch yn fawr i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl ymweliadau, anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar.

Diolch yn fawr i'w teulu a'm ffrindiau am y cymorth a roddwyd tra roeddwn yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau am adferiad buan. Diolch o galon — Sandra Davies, Bryn Tirion.

Hoffai Terry a Christine Saynor a'r ddau deulu ddiolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mattie Hughes, Tan-y-clogwyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac yna gartref. Diolch hefyd am y llu galwadau ffôn yn ogystal â'r holl ymweliadau.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Llongyfarchiadau i John Ellis, 5 Nant Ffynnon, ar ennill gradd BA anrhydedd mewn pensaernïaeth ym Mhrifysgol de Montfort, Milton Keynes.

Llongyfarchiadau i Brenda Roberts, Ystrad, am gael tystysgrif yr *Institute of Chiropodists* fel trinydd traed.

Cydymdeimlwn â theulu Gerry Sandercombe, Gardda, a fu farw yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Ann Sandercombe a theulu y diweddar Gerry Sandercombe ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar, ac am yr arian a gasglwyd tuag at Ymchwil y Galon.

Dymuno'n Dda: Dymunwn yn dda i Hefin Pritchard, Tŷ Isaf, a Trudy Salmon, o Nottingham, ar eu priodas yn Nottingham ar 22 Gorffennaf. Maent wedi cartrefu yn Tyddyn Alis, Nant Peris.

Bedydd: Ar 2 Gorffennaf yn eglwys Sant Peris bedyddiwyd Sadie Madalen, merch fach Martin a Stephanie Evans, Coed Gwydr. Ei thaid, y Parchedig Canon Geraint Evans o dde Cymru oedd yn gwasanaethu.

Diolch: Dymuna Sian a Colin Sibley, Ceunant, ddiolch yn fawr am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Jessica ar ei genedigaeth.

Dymuniadau gorau i Alan Pritchard, Llys Awel, a Teleri Haf Pritchard o Benrhyndeudraeth ar eu dyweddïad, oddi wrth y teulu a phawb yn y Nant.

Diolch: Dymuna Alan a Teleri ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar eu dyweddïad.

CARNIFAL NANT PERIS

Cynhaliwyd ein noson flynyddol o hwyl a sbri ar nos Wener, 28 Gorffennaf, a chalondid oedd gweld cynifer yn bresennol. Gresyn am y dafnau glaw mân a ddisgynnodd, ac am y trafferthion efo'r corn-siarad, ond trechwyd y naill gan wynebau siriol y plant, a'r llall gan lais awdurdodol Mr J. H. Hughes, ein Llywydd! Y beirniad eleni oedd Mr a Mrs E. W. Hughes, y Parchg a Mrs J. Pritchard, a'r frenhines Leona a'i gosgordd o Lanberis — diolch am eich cyfraniad caredig. Diolch hefyd i'n 'perl' fach, Miss Lindsey Jones am gynrychioli'r Nant mor hyfryd — roedd hi'n bictiwr! Mawr ddiolch hefyd am y nwyddau a dderbyniwyd gan Siop Ffrwythau Valerie; H. E. Hughes; a Wavell Roberts; a diolchwn i'r heddlu am eu presenoldeb; i Mr M. Pritchard am y defnydd o'r cae, ynghyd â'r garafan a ddychwelwyd yn brydol o'r Sioe

Amaethyddol gan ei ferch Helen; hefyd i Seindorf Arian Llanrug; aelodau Ras yr Wyddfa; ac i G. Roberts am baratoi'r cae. Diolch hefyd i'r cyfranwyr anweledig, ac anhysbys yn aml, fu'n paratoi cacennau; ac i'r rhai a 'safodd yn y bwllch' ar fyr rybudd gan gynnig eu gwasanaeth ar y stondinau. Yn olaf, ac efallai'n flaenaf, diolch i bob un a fu'n cystadlu — fyddai yna yr un carnifal hebddo chi.



Lyndsey Jones

Dyma'r canlyniadau:

Gwisg ffansi. Dan 3 oed: 1, Amy; 2, Manon; 3, Rhodri. 4-5 oed: 1, Rhian; 2, Jade; 3, Gwenno. 6-8 oed: 1, Bleddyn; 2, Amy Louise; 3, Stephanie. 9-11 oed: 1, Jaco a Wili a 'Lad'; 2, John Paul; 3, Nia Wyn. Dros 11 oed: 1, Dafydd; 2, Claudette. Oedolion: 1, Mrs Ann Jones; 2, Helen Mai. **Babi Bochgoch:** Cydradd 1af: Jessica, Mared a Yasmine. **Gliniau gwlanog:** Nia Wyn. **Pram Addurnedig:** Mared Meleri. **Beic Addurnedig:** Bleddyn. **Het Addurnedig:** 1, Rhian Pritchard; 2, Ceri Bryn; 3, Carys Williams.

Mabolgampau:

Dan 3 oed: 1, Cerise; 2, Victoria; 3, Elin. 4-5 oed: 1, Gavin; 2, Rhian; 3, Byron ac Alex. 6-8 oed: 1, Michael; 2, Ceri; 3, Einir. 9-11 oed: 1, Becky; 2, Diana; 3, Aaron. Dros 11: 1, Claudette; 2, Dawn. **Ras Deircoes:** 1, Claudette ac Elin; 2, Kelly a Nicky; 3, Gwen a Dawn. **Ras Ferfa:** 1, Claudette ac Elin; 2, Diana a Leona; 3, John Paul a Dafydd. **Wy ar lwy:** 1, Ceri; 2, Claudette; 3, Bleddyn. **Dyfalw pwysau'r oen (22kg):** Neil Jones. **Enw'r Tedi (Gwawr):** Owain Griffiths. **Raffl:** 1, Nia Wyn Morris; 2, Alex Roberts; 3, Jackie Sellars; 4, Hefina Jones; 5, Alwyn Owen; 6, Heather; 7, D. Jones; 8, Margaret; 9, Felicity Davies; 10, Margaret Price.

AMANDA WELSBY

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Elsa Orlik ac Iwan Morris, Victrix a Victor Ludorum Mabolgampau Ysgol Dolbadarn 1995

OLIFAR



OLIFAR — Meilir Emrys

Cafodd y criw oedd yn gweithio tu ôl i'r llwyfan gymorth a chynghor rhai o athrawon yr Ysgol. Yn ogystal â'r Adran Gerdd bu rhai o adrannau eraill yr Ysgol yn brysur ynglŷn â'r cyllid a'r gwaith celf, ac yn y blaen.

Bwriad gwreiddiol y Cwmni oedd cyflwyno sioe bob dwy flynedd. Bydd raid disgwyl i weld ai dyna fydd y patrwm yn dilyn llwyddiant y cynhyrchiad cyntaf. Mae'r *Eco* yn llongyfarch y Cwmni ac yn dymuno'r gorau iddo i'r dyfodol.



NANSI — Eleri Robinson

Mae'r sioe gerdd hon wedi ei seilio ar nofel enwog Charles Dickens, *Oliver Twist*. Ceir ynddi hanes bachgen amddifad yn mynd i helbul wrth ddod dan ddylanwad lladron yn Llundain y ganrif ddiwethaf. Ar wahân i'r prif gymeriadau fel Olifar, Ffegin, Bill Sykes a Nansi, mae yna rannau i amryw o unigolion eraill ynghyd â chriwiau o hogia a gwerthwyr stryd ac aelodau'r Corws yn y sioe. Roedd llawer o'r disgyblion a gymerodd ran yn y sioe yn ymddangos ar lwyfan am y tro cyntaf erioed. Cymerwyd rhan gan ddisgyblion blynyddoedd 8, 9, 10 ac 11.



GWERTHWYR Y STRYD

Yr oedd y Cwmni yn wreiddiol wedi bwriadu cyflwyno'r sioe adeg y Pasg eleni. Ond deallwyd bod yr Arolygwyr Ysgolion yn ymweld â'r Ysgol yn ystod yr wythnos cyn y perfformiad. Gan nad oedd neb yn ddigon dewr i awgrymu bod yr Arolygwyr yn cadw draw (!) penderfynwyd gohirio'r sioe tan fis Gorffennaf.



Mr BROWNLOW (Aled Davies), Mrs BEDWIN (Delyth Humphreys), Mr GRUMWIG (Rhys Jones)



FFEGIN — Llŷr Siôn Roberts



BILL SYKES — Huw Llywelyn Jones

... DIOLCH ...

Mae'r Cwmni yn awyddus iawn i ddiolch am y cymorth parod a gafwyd o sawl cyfeiriad ynglŷn â'r cynhyrchiad.

Diolch arbennig i:

BETHEL SCAFFOLDING
SYSTEM GOMIC (Gomer Davies), TRE-GARTH
CAINC, CIBYN, CAERNARFON
YSGOL UWCHRADD DYFFRYN CONWY, LLANRWST
YSGOL GLANAETHWY, BANGOR
AMBARÉL, CIBYN, CAERNARFON
NIA PUGH (Colurwraig), LLANDWROG

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

✕
**J.M.
JONES**
A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Mr Selwyn Pritchard — Athro Arbennig gan Delyth Eronwy Parry

Rydw i wedi gadael Ysgol Dolbadarn ers ugain mlynedd bellach ond mae'r atgofion am fy addysg yno yn fyw iawn o hyd yn fy meddwl. Mae'r atgofion am yr athrawon a'm dysgodd i hefyd yn effro iawn yn fy nghof ac mi rydw i yn hynod falch o gyfraniad gwerthfawr pob un ohonynt. Ar ôl dweud hyn, rydw i eisiau canolbwyntio ar un o'r athrawon hyn, sef Mr Selwyn Pritchard, Madryn, a fu farw ychydig wythnosau'n, ôl.

Bu Mr Pritchard yn athro a ddylanwadodd lawer ar fy nyfodol i fel athrawes. Y fo a ddechreuodd fagu diddordeb yn of mewn llenyddiaeth Saesneg, yn arbennig felly ei ddiddordeb personol ef yng ngwaith Shakespeare a'r chwiorydd Bronte. Roedd athrawon Saesneg fy ysgol uwchradd yn rhyfeddu fod plant oedran ysgol cynradd wedi cael cystal bedyddfa mewn llenyddiaeth Saesneg, a bod cynifer o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn yn gallu trafod ac ymdrin â storïau fel *Wythering Heights* a *Jane Eyre*! Roedd y diolch i gyd am hyn i Mr Pritchard. Roedd o'n feistr ar ddweud stori hefyd! Mi fedra i gofio'n iawn llond dosbarth ohonom yn eistedd yn Safon 4 ar bnawn glawog, a Mr Pritchard yn darllen darn o ddrama *Macbeth*

i ni, ac mae geiriau'r gwrachod yn dal yn fyw iawn yn fy nghof, er nad oeddwn ond deg oed ar y pryd:

*When shall we three meet again.
In thunder, lighting, or in rain
When the hurly burly's done.
When the battle's lost or won.*

Yn sicr, mi lwyddodd Mr Pritchard i ennill y frwydr o'm dysgu i, ac mi rydw i a chynifer o gyn-ddisgyblion yn dra diolchgar am y fagwraeth a gawsom ganddo yn ein dyddiau cynnar yn y byd addysgol.

Er fy mod i, fy chwaer Gwawr a mam a dad wedi bod yn ffrindiau garw efo Mr Pritchard, Auntie Ann a Rhiannon ers blyneddodd, Mr Pritchard fuodd o i mi ar hyd y daith. Fedrwn i yn fy myw a'i alw yn Uncle Selwyn, er na fu'n athro arnaf ers ugain mlynedd! Mr Pritchard fydd o i mi am byth.

Mi fydda i'n ei gweld hi'n od pan ddof adref i Lanberis dros wyliau'r haf, hynny yw, mynd draw i Madryn i weld Rhiannon a gweld hoff gadair eistedd Mr Pritchard yn wag, ond yn sicr ni fydd fy nheimpladau a'm hatgofion i ohonno yn wag. Mae, ac fe fydd, yr atgofion hapus amdano yn dal yn fyw iawn yn fy meddwl i, a chynifer iawn o'i gyn-ddisgyblion hefyd, dwi'n berffaith sicr o hynny.

AMDDIFAD YN LIMBO

Rhagor o atgofion plentyndod yn Llanberis
gan Miss O. M. Davies, Bangor

Yr oeddwn wrth fy modd yn dysgu barddoniaeth a 'poetry', adnodau a colectau yn yr Ysgol Sul. Erbyn i mi fynd i Standard IV roeddwn yn giamblar ar adrodd a chanu yn Steddfod yr Eglwys. Roedd cael pisyn swllt, neu chwech, a roset coch neu las, yn help i eneth a oedd yn aml yn cael pwl o grio a methu cysgu. Roedd Mr Williams, y tŷ cyntaf yn y rhes, yn godwr canu a blaenor yn y Capel Coch ac ato ef yr awn i fynd drwy'r gân erbyn 'steddfod neu gyngerdd ysgol. Roedd ganddo law bren a maneg ledr arni, ond pan fyddai'n twtio'r ardd rhoddai fachyn yn lle'r llaw a gallai gario bwced i hel y chwyn yn hwylus.

Tua'r adeg yma dewiswyd fi i fod yn fath o Dylwyth Teg i sefyll ar flaen y llwyfan yn y neuadd, pan gynhaliwyd cyngerdd yr ysgol. Yr oedd yn dweud 'speech' yn Saesneg i wahodd y gynulleidfa i wlad hud! Nid y traddodi a'm poenai ond y broblem o gael dillad pwrpasol. Cefais fenthyg ffrog wen Vera, merch Alo Mai. Roedd hi newydd fynd drwy seremoni conffirmasiwn. Cwtogwyd y ffrog, gwnaethpwyd coron a ffon hud ac addurnwyd popeth â thinsel. Buaswn wedi hoffi cael esgidiau isel 'kid' ond rhaid oedd i'r sanshws wneud y tro wedi'i gwynnu hefo blanco. Cefais dynnu fy llun yn ddiweddarach gan ddyn a ddaeth i'r ysgol. Fe'i cedwais ar hyd fy mywyd hyd yn ddiweddar; roeddwn mewn pwl o iselder a phan ddeuthum ar ei draws fe'i rhwygais yn ddarnau mân a'i daflu!

Yn Standard IV bu Miss Jones wrthi'n ceisio ystwytho'n lleisiau drwy ein cael i fynd i fyny ac i lawr y 'Modulator' gan yngan 'gw-gw-gw-gw-gw-gw-gw-gw' yn lle'r sol-ffa. Roedd desg fawr Jabas ym mhen draw'r ystafell — y pencadlys lle gyrrwyd y drwg-weithredwyr i sefyll i aros eu cosb. Yn aml fe ddô i mewn i

gynhesu ei ddwylo a'i ben-ôl wrth y stôf fawr gerllaw, a chuchiai ar ein hymdrechion pitw, gan syllu fel barcud ar unrhyw un a wingai ar ei fainc, neu a ollyngai ei freichau o'r 'arms fold' neu ei draed o'r 'feet together'! Gwnaed sums ar lechen mewn ffrâm gyda phensil yn crafu'n wichlyd. Yn amlach na pheidio roeddem wedi anghofio dod â chadach gwlyb i lanhau'r camgymeriadau, a rhaid fyddai defnyddio cwr llawes a phoer.

Dysgem bron bopeth drwy ei lafarganu, 'Twice one are two, twice two are four . . .' ond byddwn yn cael cymeradwyaeth am fedru adrodd 'poetry':

*Does the road wind up hill all the way?
Yes, to the very end.
Will the journey take the whole long day?
From morn to night, my friend.*

Roeddwn i a'm chwaer wedi cerdded i ben y Wyddfa pan oeddem tua chwech neu saith oed. Efallai fod y gwynt cryf ar grib y Clogwyn wedi achosi oerfel i'm clust. Bûm yn diodde'n enbyd o ddolur clust am ddyddiau; gweiddi sgrechian drwy'r nos gan gadw pawb yn effro. Anti'n rhoi tipyn o fenyn ar lwy gynnes a'i dolli; hwnnw'n lleddfu'r boen am ychydig, ond yn dychwelyd i forthwyllo'n ddiweddar, a'r llid yn casglu. Gan na allai Anti fforddio talu am y doctor, fe yrrodd Taid fi i lawr at ei feddyg o. Amser, mae'n sicr, a ddaeth â gwellhad, gan nad oedd yn gyffuriau. Gadawyd craith ar gonyn y glust gan wneud fy nghlyw ychydig yn fwy pwl na'r glust arall. Dim ond pan fyddai heintiau difrifol o beryglus ar blant y gelwid y meddyg gan y rhan fwyaf o famau. Rwy'n cofio i ni ein tri gael y frech goch ar yr un pryd, a hynny ar y diwrnod pwysicaf yn ein calendr, sef diwrnod Ffair Nant. Byddai'r ysgolion yn cau er mwyn i'r plant gael mynd i'r Fffair a gynhelid ar ddiwedd yr

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN

Ffôn: Llanberis
871047



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Gwesty Dolbadarn


LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

haf ym mhentref Nant Peris. Byddem yn cerdded yno yn y prynhawn pan ddechreuai'r rhialtwch wedi'r ffeirio anifeiliaid yn y bore. Edrychem ymlaen at y 'pull-away' i geisio cael darn go braff o indiaroc Llanerchymedd, ond byddi rhaid bodloni ar rai dion main i fynd adre i'w rhannu. Heidiai'r gwŷr i dafarn Ty'n Llan, a rhedai'r bechgyn ar ôl y genod hefo sgwisars yn llawn o ddŵr er mwyn cael eu gwasgu i'w hwynebau neu i lawr eu coleri. Y tro hwn bu'n rhaid inni aros yn y gwely ac Anti'n dod a tentiriwbob (tincture of rhubarb) a spirit neitar (spirit of nitre) mewn dŵr poeth inni i'w yfed er mwyn inni gael chwysu. Meddyginiaeth arall nas hoffem oedd asiffeta, a roddwyd inni ar lwmp o siwgr, at roi archwaeth. Un arall oedd trwyth o'r wermod lwyd o'r ardd mewn dŵr poeth. Byddwn yn cael dolur gwddw yn aml iawn ac i geisio gwella hwnnw rhoddid sailm gŵydd ar hen hosan wllan a'i lapio am y gwddw. Os byddem wedi gwlychu wrth ddod o'r ysgol neu'r eglwys caem lasiad o bosal llaeth, sef dŵr poeth ar ben llaeth enwyn a llwyaid go helaeth o driog ynddo.

Dim ond ar y Sul y caem gig eidion neu gig oen, oni bai fod Anti wedi cael esgyrn i wneud potes, ond troi ein trwynau a wnaem ar hwnnw'n aml. Roedd llawer o'r teuluoedd yn prynu yn y Coparét, y Cooperative Wholesale Society, lle y caed disgownt ar ddiwedd blwyddyn, a lle y telid y bil ar ddiwedd y mis pan gâi'r chwarelwyr eu 'cyfri mawr'. Y demtasiwn oedd prynu ar gredid a ffeindio bod y bil yn anodd ei glirio ymhen y mis. Byddai'r rheolwr yn nabod ei bobl, ac yn cadw llygad ar y sefyllfa. Byddem yn cael ein dillad hefyd yn y Coparét. Dull arall o gael angenrheidiâu oedd i drafaeliwr Bayne & Dargie, Bangor, ddod o gwmpas y tai i gymryd archebion am gynfasau, blancedi, tyweli, a phethau tebyg, a thalu ychydig ar y tro yn rheolaidd. Ni chofiaf bod dim oll wedi'i brynu i'r tŷ drwy fy mhientyndod, dim leino yn lle'r



Yr unig ffordd i gael y coedyn o Gaernarfon i Lanberis oedd ei osod i sefyll, fel mast Nebo, trwy ffenest to'r car. Rhag ofn i rywun ei weld dyna fynd rownd . . . Bontnewydd . . . Caeathro . . . Waunfawr . . . Ceunant a hyd yn oed y Clegir! Fe ROI'r stori hon i bawb gael gweld na fu'r Draenog yn cysgu dros yr haf.

un oedd yn cracio yn y lobi, dim mat, oddi gerth y mat racs y bu Anti yn ei wneud i roi o dan ein traed ar lechen yr aelwyd yn y gegin fach. Roedd gennym un botel dŵr poeth bridd a photel 'ginger beer' fechan. Pan ddechreuodd Anti gael poen yn ei stumog byddwn yn mynd i lawr yng nghanol y nos i gynnu tan priciau er mwyn cynhesu cwpanaid o ddŵr mewn sosban fechan, a hithau'n aml yng nghanol gaeaf a'r tŷ'n iasol o oer. Yna sylwais, wrth i mi osod y gannwyll ar y bwrdd, fod ugeiniau o gocrotsus yn sgrialu o gwmpas fy nhraed! Dechreuais grynu gan ofn; hyd y dydd heddiw mae gennyf ffobia yn eu cylch a byddaf ofn y dau un rhyw ddydd i'r tŷ yma!

Yr unig lyfrau a welais yn ein tŷ ni oedd hen gylchgronau Saesneg *The Wide World* mewn cwpwrdd. Yna dangosodd Anti lyfr a oedd yn perthyn i'w gŵr cyntaf. Ni fedrwn ei ddarllen yn hawdd gan ei fod mor hen.

Relicks of the Welsh Bards, gan Edward Jones, Bardd y Brenin. Ddeallais nad oedd a wnelo dim a Yncl Edward! Gan fy mod yn awchu i ddarllen byddwn yn cael benthg llyfrau-comic a *Children's Newspaper* gan y genethod eraill, ac yn rhedeg i fyny i'r llofft i'w ddarllen pan y dyliwn fod yn brwsio'r grisiau neu yn golchi'r cowt. Pethau yn mynd yn ffrae wedyn rhwng Evelyn a mi.

*He lay beside the ungathered rice
His sickle in his hand
His breast was bare, his matted hair
Was buried in the sand . . .*

Dywedwn y geiriau yn uchel wrth wneud y gwely neu fe geisiwn gofio y darn adrodd erbyn 'steddfod yr Eglwys:

*Wyt Ionawr yn oer a'th farrug yn wyn
A pha beth a wnaethost i ddŵr y llyn?*

A chanwn yn y côr:

*Gwelais bren yn dechrau glasu
A'i ganghennau yn yr ardd,
Ac yn dwedyd wrth yr adar,
Wele daeth y gwanwyn hardd.*

Yna rhyw ddydd braf o haf daeth y diwrnod pwysicaf — arholiad y Sgolarship. Ffwrdd â ni, y dewisedig rai, yn siarabang Pritchard gan afael yn dynn yn ein pinholdar, pensil, papur blotio a riwlar. Yr oedd fy chwaer eisoes wedi cael mynd i Ysgol Sir Brynrefail am hanner y gost — Taid yn talu. Bùm i'n ffodus i gael mynd yn ddi-gost. Y gost llawn oedd tair punt y flwyddyn. Yn ogystal rhaid oedd talu am werslyfrau, dillad, cost y bws bob dydd, ac am ryw fath o fwyd ganol dydd.

Un diwrnod daethom adre o'r ysgol i weld dyn diarth yn eistedd yn y gegin gefn yn bwyta eirin o fag papur brown, tra roedd Anti'n paratoi te. Hwn oedd 'Daddy'. Ni edrychai fel arwr. Ar

ôl derbyn eiren ganddo, teimlais nad oedd gennyf ddim i'w ddweud wrtho. Ni welais ef wedyn am flynyddoedd lawer; fe gofiaf fynd i Gaernarfon efo Anti i chwilio am ei hynt yn rhyw dafarn ger y Castell. Fel y dywedais cafodd Evelyn siawns i gael ei magu gan chwaer fy mam yng Nghorwen. Daeth cyfle tebyg i mi pan oeddwn tua wyth mlwydd oed. Yn ystod yr haf hwnnw ymwelodd perthynas i Anti o'r America, o Scranton yn nhalaith Pennsylvania, lle'r ymsefydlodd llawer o deuluoedd Cymraeg y ganrif ddiwethaf. Gwelodd nad oedd pethau yn rhy hawdd i Anti a chynigiodd i mi fynd yn ôl gyda hi i gael fy magu yn America. Ni allai Anti fy nghyngori yr un ffordd na'r llall. Gwrthod a wneuthum. Does wybod beth fyddai fy hynt a'm helynt pe bawn wedi derbyn y cynnig. Cyn iddi ymadael fe brynodd i ni'n tri bâr o esgidiau a phâr o sanau. Sanau gwllan at y pen-glin a phâr o esgidiau uchel yn botymu ar yr ochr. Pethau buddion ond nid i'w hoffi, mae arnaf ofn, oedd y rhain i mi. Cyn diwedd yr haf hwnnw roedd criw ohonom yn chwarae ar lan yr afon pan ddaeth awydd cryf arnom i groesi i'r ochr arall, i'r Ddôl. Tynnu ein hesgidiau a stwffio'n sanau iddynt, a'u taflu drosodd cyn troedio ar y cerrig i'r lan. Ond methu cyrraedd glan wnaeth fy esgid drom i, a syllais arni'n troelli a sboncian gyda'r ffrwd ac er i ni redeg a cheisio'i bachu, i lawr yr aeth i gyfeiriad Stesion y Wyddfa. Mawr y gofid wedyn wrth gerdded adre'n droednoeth gan gario un esgid ac un hosan, i wynebu gwylltineb Anti a'i phryder.

I'w pharhau yn y rhifyn nesaf.



ANTUR WAUNFAWR

**SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti

Jams ★ Briwgig ★ Siampw,

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

BETHEL

Geraint Ellis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Diolch: Dymuna Glenys ddiolch o waelod calon i aelodau'r pwyllgor, y plant a'u rhieni, ac i'w chydathrawon am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar ar yr achlysur o orffen fel athrawes yn y Cylch Meithrin.

Diolch: Carai Menna Dauncey Williams ddiolch yn fawr iawn i bawb am y dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn ei hymweliad ag Ysbyty Walton, Lerpwl. Diolch yn arbennig i Mam a Dad, Manon, Gareth a Meinir am eu cydymdeimlad a'u gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch hefyd i deuluoedd 1 a 2 Tan-y-cae ac Yncl Goronwy ac Anti Mair am eu cefnogaeth bob amser.

Llongyfarchiadau i Rhian Williams, Arfon House, ar ei llwyddiant, gydag anrhydedd, mewn arholiad canu, gradd 1 Ysgol Cerdd a Drama y Guildhall.

Yr Urdd: Cynhelir cyfarfod cyffredinol y gangen ddiwedd mis Medi. Bydd croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngweithgareddau'r Urdd. Ceir gwybodaeth am y dyddiad yn ddiweddarach.

Eglwys Llanddeiniolen: Nos Sul, 10 Medi, am 7.30 o'r gloch, cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Llanddeiniolen. Robin Jones fydd yn arwain ac fe geir eitemau ychwanegol gan Barti Clychau'r Grug a Bob Thomas. Pris mynediad fydd £1. Croeso cynnes i bawb.

Rhodd i Ymchwil Meddygol: Ar 13 Gorffennaf cyflwynwyd siec o £1,600 i Dr Helen Hughes, Adran Ymchwil Meddygol Ysbyty Prifysgol Caerdydd, gan Siân Hughes a J. Foulkes. Diolch i Beti a Seiriol Owen am gerdded 150 milltir o Gaerhun i Gaerfyrddin a'u gwneud yn daith noddedig mor llwyddiannus. Dymuna Jack a Siân ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y daith gerdded noddedig.

Clwb 200 Y Neuadd: Enillwyd gwobrau y misoedd diwethaf — Mehefin: £20: Elizabeth Evans, Blaen Parc (12); £10: Idris Morris, Fachell (53); £5 yr un: Jackie Williams, 1 Rhesdai Swyddfa'r Post (150); Nan Rowlands, 23 Y Ddôl (55); Huw Jones, Cefn (100); Alwynne Williams, 10 Y Ddôl (159); Anne Williams, Tyn 'Rardd (153);

Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Nigel Hardwidge, Silyn (102); Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn (193). Mis Gorffennaf: £20: Elinor Jones, 22 Cremlyn (139); £10: Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99); £5 yr un: M. D. Williams, Awelon, Erw Bian (174); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (127); Ivy Wright, 2 Tan-y-buarth (173); Heather Hughes, Coed Bolyn (5); Katherine Jones, Y Ddôl Wen, 21; Jackie Jones, Tŷ Catrin (44); Kathleen Williams, Gerddi (87); Jane Elis, Glenydd, Y Ddôl (198).

Ysgol Gynradd Bethel: Cynhaliwyd Helfa Drysor flynyddol yr ysgol ar nos Wener, 14 Gorffennaf. Cafwyd noson hwyliog yn teithio i Fôn gan orffen yng Ngwesty'r Fôr-forwyn ym Mrynsiencyn gyda phryd o fwyd. Yr enillwyr oedd Wendy Roberts, Dawn Hughes a'r plant; gyda Geraint, Sharon a'r plant yn derbyn y wobrgysur. Diolchodd y prifathro, Mr Ian Pierce, i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Ellen Jones a Nora Parry enillwyr y llynedd am drefnu'r noson. Enillwyr y raffl oedd Joyce Gaffey, Manon Williams ac Anne Elis.

Eisteddfod Bentref: Mae'r testunau ar gyfer yr Eisteddfod ar gael yn rhad ac am ddim yn y siopau lleol. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd. Cynhelir noson o gystadlaethau dawnsio disgo a dawnsio gwerin ar nos Wener, 10 Tachwedd. Gobeithio y bydd y gefnogaeth a gafwyd y llynedd yn parhau. Bydd yr Ysgol Gynradd yn trefnu cystadlaethau llen ac arlunio i'r plant, ond mae digon o waith i'w wneud gartref gyda'r collage, ffotograffiaeth, gwaith creadigol 3D, pypedau, graffeg cyfrifiadurol, a.y.b. Pob hwyl gyda'r paratodau.

Wythnos y Carnifal: Cafwyd wythnos o weithgareddau ardderchog yn y pentref. Ar nos Fercher, 19 Gorffennaf, cynhaliwyd taith gerdded a Bingo. Enillwyr y daith gerdded oedd: plant Gethin gyda Carl a Pat yn ennill yr adran i oedolion. Enillwyr y raffl yn y bingo oedd Medwen Green, Glenda Jones a Sioned Williams. Nos Iau, 20 Gorffennaf, cynhaliwyd cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd, a chafwyd cystadlu brwd.

Dydd Sadwrn, 22 Gorffennaf, cynhaliwyd y Carnifal ei hun a'r enillwyr oedd — cystadleuaeth addurno fflôt: 1, Teulu Tarsan (Ysgol Feithrin); 2, Snow White & Seven Dwarfs; 3, Adams Family; 4, Chippendales. Cystadlaethau gwisg ffansi — dan 5: 1, Hefin Owen; 2, Nathan Price; 3, Catrin Lambrecht. Dan 8: 1, Manon Williams; 2, Siôn Roberts; 3, Danny Williams. Dan 11: 1, Mark Bardsley; 2, Martin Roberts; 3, Elen Foulkes a Kelly Wyn Williams. Dan 15: 1, Gary Williams a David Peters; 2, Tracy Hall; 3, Rhian Williams. Dros 15 a than 25: 1, Carys Brown. Dros 25 a than 50: 1, Ann Talbot ac Iorwerth Williams; 2, Emlyn a Keith; 3, Miriam Thomas. Dros 50: 1, Nan Owen. Addurno beic: 1, Iwan Morris a Iona Speake. Rhif y Rhaglen Lwcus oedd 321 — a wnaiff yr enillydd gysylltu a'r ysgrifenyddes, Nan Owen, Berwyn



Mrs Glenys Griffiths gyda rhai o'r plant ar yr achlysur o orffen fel athrawes yn y Cylch Meithrin.

(670763). Enillwyr y raffl oedd — Gwynedd Speake, Llanddeiniolen; Jack Foulkes, Bethel; Sandra Ryan, Porthaethwy; Liz Williams, Bethel; G. Talbot, Bangor; Dewi Jones, 7 Bro Rhos; Karl Moorhouse, Porthaethwy; Gwilym Williams, Bod Hyfryd; Alwyn Jones, Bethel; Meirwen Jones, Swyddfa'r Post. Mae un wobrgysur heb ei hawlio, sef rhif 131 (gwyrd), a wnaiff yr enillydd gysylltu a'r ysgrifenyddes.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwobrau ac i bawb a fu'n helpu i wneud yr wythnos yn un mor llwyddiannus.

Clwb Ffermwyr Ieuaic Caernarfon: Ar ôl saib dros yr haf mae'r Clwb yn ailgychwyn ar nos Fawrth, 12 Medi.

Fe drefnwyd Helfa Drysor ar gyfer y noson gyntaf gan Eurwyn ac Arwel. Byddwn yn cychwyn oddi wrth Neuadd Goffa Bethel rhwng 6.30 a 7 o'r gloch, gan orffen yr Helfa gyda pryd basged. Bydd croeso i aelodau hen a newydd i ymuno â ni. Am fwy o fanylion cysylltwch ar Felinheli 670312 neu Bangor 352537.

Llwyddiant Chwaraeon: Llongyfarchiadau i Iwan Morris, Treflys, ar ennill saith medal mewn cyfarfod chwaraeon yn Abertawe. Cafodd Iwan y Fedal Aur am redeg 50m, nofio brest, dull rhydd ac ar ei gefn; a chafodd y Fedal Arian yn y ras 100m; a Medal Efydd yn y naid hir ac fel aelod o'r tîm yn y räs gyfnawid.


Llwyddiant Eisteddfodol: Llon-

gyfarchiadau i gystadleuwyr o'r pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Bro Colwyn. Rhith, y grŵp dawnsio disgo, ddaeth yn gyntaf yn eu cystadleuaeth hwy. Llongyfarchiadau mawr i Elen, Lowri, Ffiona, Caryl ac Eleri ac i'w hyfforddwraig, Mrs Miriam Thomas ar eu llwyddiant. Llongyfarchiadau hefyd i Dewi Griffiths ar ennill y wobrgyntaf yn y gystadleuaeth unawd offeryn pres rhwng 12 a 15 oed; ac i Bethan Williams am ddod yn ail yn y gystadleuaeth llefaru.

Newyddion o'r Ysgol: Mewn cyfarfod arbennig yn yr ysgol ddiwedd y tymor diwethaf y wraig wadd oedd Nyrs Beti Parry. Yn dilyn cyflwyniad gan blant blwyddyn 4 a 5 cyflwynodd Tasmin Bennett anrheg ar ran y plant a'r staff fel arwydd o werthfawrogiad am ei gwasanaeth diflino yn yr ysgol a'r ardal. Dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

Yn dilyn diwrnod mabolgampau llwyddiannus iawn eto eleni, fe gyflwynwyd cwpanau — rhoddedig gan deulu Sycharch — i Katie Williams, pencawraig y genetod, ac i Owain Siôn, pencampwr y bechgyn, gan Mr Rhys Harries, Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Llwyddiant Addysgol: Llongyfarchiadau mawr i holl bobl ifanc yr ardal yn eu llwyddiannau yn yr arholiadau TGAU, lefel-A, ac yn y colegau. Dymuniadau gorau iddynt i gyd i'r dyfodol.



Mr Rhys Harries, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol, yn cyflwyno cwpanau i Owain Siôn Williams a Katie Williams, pencampwyr y mabolgampau.



Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn/Ffacs: 870200

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Daniell McGuigan a enillodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth 'hysbyseb' yng ngharnifal Deiniollen. Gobeithio fod pawb wedi talu sylw!

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru. Mis Gorffennaf — £10: Mr Owie Gibson, 17 Hafod Olau; £5: Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog. Mis Awst — £10: Mr Ken Jones, 7 Lôn Las; £5: Mr T. A. Parry, Bro Dawel.

Priodas: Ar 15 Gorffennaf, yng Nghapel Tal-y-bont, Dyffryn Conwy, priodwyd Nia Carpenter, merch ieuengaf Mr a Mrs T. Carpenter, Bryn Awel, a Glyn Ll. Gruffudd, mab ieuengaf Mrs M. C. Griffith, Cynfi, Deiniollen. Gweinyddwyd gan weinidog Tal-y-bont, y Parchg O. J. Roberts, a'r organyddes oedd lola, chwaer y priodfab. Emyr, brawd y priodfab oedd y gwas, a'r morynion oedd Delyth a Rhian, chwiorydd y briodferch, a'i nith fach, Llio Gwenan. Cafwyd y wledd yng Ngwesty'r Risboro, Llandudno. Maent yn cartrefu yn 2 Tai Victoria, Deiniollen.

Marwolaeth: Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Cerrig-yr-afon, ar 19 Mehefin, bu farw Miss Nancy Roberts, gynt o Derwen, Stryd Fawr, Deiniollen. Dioddefodd gystudd hir a blin yn dawel a dirwgnach. Oherwydd ei gwaeledd gorfodwyd hi i adael ei chartref yn Neiniollen dros bum mlynedd yn ôl a mynd i fyw i Gaernarfon, ac yna i gartref Plas Maesincla a Cerrig-yr-afon. Roedd yn gymeriad tawel ac addfwyn. Bu'r angladd yng Nghapel Cefnywaun, ar 22 Mehefin, ble bu'n aelod ffyddlon tra parhaodd yr iechyd. Claddwyd y gweddillion ym mynwent Macpelah. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei weinidog y Parchg John Pritchard a'r Parchg R. E. Hughes, Nefyn, gyda Mrs Margaret C. Griffith wrth yr organ. Yr ymgymerydd oedd Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor. Dymuna'r teulu ddiolch am y blodau a'r rhoddion tuag at gapel Cefnywaun.

Llongyfarchiadau i Paula, gynt o 5 Rhydfadog, ac Aneurin ar enedigaeth eu merch, Elin Fôn. Llongyfarchwn hefyd Buddug a Barry am fod yn nain a thaid am yr eildro; a Mrs Nan Owen ar ddod yn hen nain.

Diolchiadau

Dymuna Carys a theulu y diweddar Cledwyn Thomas ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu

profedigaeth ddysymwrth. Diolchir am y llu cardiau a'r blodau a dderbyniwyd, ac am yr arian tuag at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd. Diolchir hefyd i'r Parchg D. J. Pritchard a Mr Derek Jones am eu gwasanaeth, ac i E. W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Barry John, 35 Rhydfadog, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei ymadawiad i weithio yn y Kibbutz yn Israel. Diolch o galon i bawb. (Wedi gadael cartref i fynd i weithio yn y Kibbutz y mae Barry John, mab Yned a Gloria Thomas, 35 Rhydfadog. Deallwn ei fod erbyn hyn wrth ei fodd yno. Dymunwn pob hwyl iddo.)

Dymuna Eira, Heather a Matthew, 12 Rhes Marian, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Walt, gŵr a thad annwyl. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Betty Jones, Tan-y-buarth Uchaf, a'r teulu ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y rhoddion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Goronwy a Mair, 18 Rhydfadog, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau, anrhegion a galwadau ffôn, a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch i bawb.

Dymuna Paula, gynt o 5 Rhydfadog, ac Aneurin ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, am yr arian, anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Elin Fôn.

Anwylaf Gof am Dad a Mam, W. T. a Mary Jones, Ysgoldy, Clwt-y-bont. Mae'r amser yn myned, ond hiraeth a ddeil — eu merch, D. M. Jones, Caernarfon.

Cyngor Eglwysig: Cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor Eglwysig lleol yn festri Ebeneser, nos Lun, 11 Medi, am 7 o'r gloch, er mwyn trefnu rhaglen am y flwyddyn. A wnaiff pob eglwys sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli, os gwelwch yn dda.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Oedfa Arbennig: Cynhaliwyd Oedfa arbennig yn Sardis brynhawn Sul, Gorffennaf 16, pan fedyddiwyd tair o ferched ifanc selog yr Ysgol Sul a'r oedfaon eraill — Eleri a Sian Wyn Evans, a Jennifer Corless — gan eu gweinidog, y Parchg Olaf Davies.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir â Mrs Betty Jones Tan-y-buarth Uchaf a'r plant yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, sef Mr John Thomas, Rhostrehwfa, ger Llangefni.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Andrew Griffith, Tan-y-bwlch a'r teulu ar golli nai yn frawychus o sydyn yn Lerpwl.

Croeso: Croesawn yn gynnes Alison a'r plant sydd wedi symud o Langernyw i'w cartref newydd yn y Foel. Nid yw Dinorwig yn ddieithr iddynt gan eu bod wedi arfer dod i ymweld â Nain a Taid yn Foel Gron yn aml.

Dosbarth W.E.A.: Dechreuir cyfres o bum darlith ar nos Fawrth, Medi 19 yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. 'Llenyddiaeth' fydd y pwnc trafod eleni, gyda Mr Ifor Baines, B.A. yn darlithio. Bydd croeso i bawb i ymuno â'r Dosbarth.

Diolch: Hoffai Glyn a Ruth Morris, Bwthyn Foel Gron, ddiolch o galon am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Elen Gwenllian, ar 18 Mai. Chwaer fach i Rachel, Jenny ac Einion.

Codi Arian: Ddechrau mis Gorffennaf aeth Kelvin Fleming ac Ian Jones, y

ddau yn athrawon yn Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli, ar daith gerdded pymtheg copa Eryri i gasglu arian i 'Bobath Cymru'. Casglwyd £1,700.95c ac erbyn hyn mae'r arian wedi ei gyflwyno i Ganolfan Bobath.

Dymuna Kelvin ac Ian ddiolch o galon am yr holl gefnogaeth a gafwyd yn arbennig i Eric Williams a Dafydd Owen am helpu gyda'r trefniadau ac am y bwyd. Dymuna Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian (mam Kelvin) ddiolch i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am yr arian a dderbyniodd hi at yr achos da. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i'r ifanc a lwyddodd yn eu harholiadau yn ddiweddar. Pob dymuniad da i bod un ohonoch i'r dyfodol.

Dymuniadau Da i bawb sydd heb fod yn mwynhau iechyd da yn ddiweddar. Gwyddom am rai ohonoch sydd wedi bod am gyfnod mewn ysbyty dros yr wythnosau diwethaf ond wedi dychwelyd gartref erbyn hyn. Daliwch i wella. **Penblwydd Hapus** i Mr Andrew Griffiths, Tan y Bwlch a fu'n dathlu penblwydd arbennig iawn yn diweddar. Gobeithio i chwi gael dathliad wrth eich bodd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** i'chwi
ac yn ymestyn oes eich car

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

AA
Specialist
MOT
RAC
Selected

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim

BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg

HOGYN GYRRU'R WEDD

gan Y GWALCH

Fy hoff orchwyl ar yr hen ffarm oedd trin y ceffylau; yn enwedig y merlod a'r cobiau, a'r prif fwyniant ynghyd â marchogaeth oedd gyrru'r car fflat ar fy union sefyll nerth carnau, un droed o bobtu'r echel.

Roedd y merlod rheini yn aml wedi doddi oddi ar y mynydd, ble byddai heidiau yn byw yn wyllt. Y criw olaf o'r rhain a welais oedd yn ymyl rhaeadr Aber a rhyw stalwyn bychan yn eu mysg.

Roedd gennym hefyd geffylau gwedd; pâr yn gweithio yn barhaol, ac ebol neu eboles yn dod i fyny yn barod i'w dal. Doedden nhw ddim yn anifeiliaid fuasai rhywun yn arddangos mewn prmin, a doedden nhw ddim yn fawr, ond eu bod nhw yn anodd eu curo am wydnwch diflino wrth weithio awr ar ôl awr yn y pridd yn tynnu'r gwydd mawr a'r ogau, neu yn cario llwythi o wair yn y tês ar hyd yr hafau hirion rheini, ar ôl dechrau'r diwrnod yn y peiriant lladd gwair tua pedwar yn y bore cyn dyfodiad y gwres a'r pryd.

Roedd cesyg yn haws i'w trin nac ebolion; a'n dwy ni am hir gyfnod oedd Liws a Mona; y wen a'r goch. Roeddent wedi hen arfer gweithio yn gyfochrog wedi eu cyplysu, a Liws yn ddelfrydol fel ceffyl rhych wrth aredig, yn camu yn fan a thwt. Roedd traed blaen y gasg goch natur troi i mewn, a daliai fy nhad fod yr anffawd yn gaffaeliad iddi wrth resu tatws hefo'r gwydd dwbwl.

Roedd ein goroesiad ni a'r gweddill o'r da yn dibynnu yn hollol ar y ceffylau, ac o ganlyniad roeddent bron yn cael yr un sylw â phlant, ac yr oeddent yn dod yn hoffus tros ben a chyfeillgar. Roeddent yn adnabod sŵn troed yn y nos pan aem i swpera, ac yn gweryru yn isel. Cas beth fy nhad fyddai i rhywun gamdrin ceffyl. Serch hynny roedd yn rhaid dangos iddynt pwy oedd y meist'r o'r dechrau.

Byddai ebolion yn cael eu dal yn ddwyflwydd, ac yn cael eu tynnu hefo penffrwyd a rhaff wair lac am eu gyddfau nes iddynt ddysgu tywysu ac nid dal yn ôl wysg eu tinnau. Yn ein hachos ni, byddem wedyn yn eu rhwymo wrth yr hen faen Derwyddol yn y weirglodd a'u rhedeg o'i gwmpas nes y byddai'r rhaff yn chwipio amdano a llacio bob yn ail. Caent eu cerdded wedyn mewn cylch hefo rensan hir cyn rhoi ffrwyn dywell arnynt a but, a oedd yn un o orchwylion anoddaf y ddisgyblaeth. Roedd y ffrwyn ynghyd â pad bychan ar y cefn yn rhan o beth a elwid yn 'gêr joci'. Arferid yr anifail wedyn i gael ei rensio o'r tu ôl, cyn rhoi coler arno a thrês gadwynni wedi ei bachu mewn darn o bren trwm, iddo gael teimlo pwysau ar i balfas ac arfer hefo tynnu.

Roedd y gwaith yma weithiau yn cael ei drosglwyddo i hyfforddwy profiadol a elwid ar lafar yn 'joci', ond ein barn ni oedd, mai'r rhai a fwrriadau drin y ceffylau yn barhaol a ddylai wneud y gwaith o'r dechrau. Ar wahân, roedd rhai o'r dynion yma, er mwyn torri conglau, yn tueddu i fod yn llawdrwm. Yr anhawster oedd cael yr amser cyson rhwng gorchwylion y tymhorau.

Y cam nesaf oedd arfer y ceffyl ieuanc i weithio mewn gwedd. Byddai cyn cael ei gyplysu gyda un hŷn fel arfer, ar yr ochr allan i dynnu ogau neu i gerdded rhych. Ar wahân i'r cwplws pen o un but i'r llall, roedd yna ddau o gyplysau croe i rwystro y naill i fynd o flân y llall. Wedi cyfnod o ymarfer, gyda amynedd, byddai'r mwyafrif yn dod yn hawdd eu trin.

Mater arall oedd eu bachu rhwng lloppiau trol hefo drec a britchin. Roeddent yn teimlo'r caethiwed ac yn ofnus o'r sŵn o'r tu ôl. Byddai rhai yn defnyddio cadwyn 'curb' o dan yr ên i'w rheoli. Roedd hwnnw yn fesur dwaetha i 'nhad.

Chefais i ddim fy mhrentisio



Y ceffylau gwedd a'u cyfeillion yn y Gors, Llanddeiniolen yn 1933.

hefo'r gwydd main cyffredin. *Ransomme Trans Plough* oedd gennym ni; hen anghenfil trwm i'w gael o'r ddaear a'i ddal ar ei sawdl ar y dalar i lefryn. Ond yr oedd yn nofiwr da. Caffaeliant a roddai gyfle i rywun gerdded ar y cefn weithiau â'i ddwylo yn ei bocedi rhag ias y barrug. Serch hynny, roedd aredig yn bleserus; arogl y ddaear yn dod i fyny hefo rhyw y cwysi a'r gwyllanod yn dilyn y toriad ar ôl y pryd fed genwair. Fel y canodd Owain Rhun:

Llanc mewn siaced las yn gyrru'r wedd
A chwysi union yn ei ddilyn
Cawod hygar o wylanod teg
Ar gwysi coch y cae yn disgyn.

Byddai gennyf ddwy sach i daflu dros lwynau'r ceffylau ar hoe fer ganol bore tra byddwn innau yn torri wy amrwd ar draws fy nannedd. Ymlaen wedyn hyd ganol dydd, ac yn ôl am y pnawn byrddydd. Roedd y ceffylau yn ddigon doeth i ddeall y symudiadau. Os y tarawai'r swch garreg, byddent yn atal ar unwaith ac yn rhoi cam yn ôl i lacio'r cadwynni er mwyn i'r gwydd gael ei godi drosti. Weithiau byddai'r gwrthdrawiad yn annisgwyl nes y byddai'r asennau yn cael sgytfa gan gyrn y gwydd. Dro arall byddent yn codi, ac yr oedd yn hawdd cael trawiad o dan yr en. Roedd malu swch yn brofedigaeth a olygai golli hanner diwrnod i fynd i'r dre ar gefn beic i siop Ifan Jones am un arall. Cofiaf byth y rhif: TCP 36.

Ar ôl agor cwys ar hyd y cefn doedd hi ddim yn anodd i'w dilyn yn ôl, ac yn ôl a blaen wedyn awr ar ôl awr a'r darn â'r yn lledu: tyrru, fel y gelwid y drefn, ond rhaid oedd cael lled priodol i'r gwys drwy symud y nodwydd yn nhyllau'r bar hanner lleud ar flaen y gwydd. Os oedd hwnnw yn dod ormod i mewn i'r cefn byddai'r cwysi yn dueddol o droi yn holau. Clewtio oedd y gair am y blerwch hwnnw. Ar wahân i edrych yn anghymen byddai'n achosi i'r og bigau godi tywyrch gleision amser hau, ac yr oedd yna ddigon o feirniaid yn cerdded y llwybrau dros y Sul. Roedd fy nhad yn arddwr pur dda. Enillodd unwaith dlws mewn ras aredig wedi ei gysylltu â chadwen fain. Byddai fy mam yn ei gwisgo am ei gwddf ar y Suliau.

Byddai'r ceffylau hefyd yn gwybod yn iawn pan oedd hi'n tynnu at amser gollwng. Gwelech eu clustiau'n dechrau moelio yn ôl wrth droi'r dalerydd yn disgwyl am y gorchymyn olaf. Byddem yn mynd â hwy i'r afon i olchi'r pridd oddi ar eu bacsiau rhag iddo galedu, ond nid oeddent yn cael yfed nes iddynt oeri. Caent wair bras yn y rheselydd, a gwair man yn ddiweddarach, a chaent eu sgrafellu nes yr oeddent yn sgleinio fel afalau Awst. Byddent hefyd yn cael dogn o geirch a phowdwr yn gymysg ar ddydd Sadwrn. Cedwid baco i roi yn eu ffroenau os caent annwyd.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau**

Tapestri
am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Sadwrn
10.00 - 4.30

**Ffôn: Llanberis
870922**

Ar gyfer mynd ar y ffordd roedd yn rhaid eu pedoli, a Richiard Huws, Efail Castell, a fyddai yn gwneud hynny fel arfer ar ddiwrnod glawog. Roeddem yn mynd i'r cei yn y Felinheli ddiweddd y flwyddyn, ar daith diwrnod i mofyn tunnelli o lo llongau ar ffurf meini. Byddem yn mynd a dau geffyl, un i dynnu ar y blaen, a byddem yn falch o'i bwysau ar glipiau Nant y Garth a hithau fel rheol ar dywyllu.

Byddem hefyd yn cludo moch bach mewn sachau a thatws i'r tyddynnod, a gwelais lwythi o wair wedi ei rwymo a rhaffau gwellt yn mynd cyn uchod â Cherrig y Nyth a mannau anhygyrch felly. Cyn cychwyn ar deithiau tebyg byddai'r gêr yn cael ei gaboli, a'r pres ar y ffrwyni a'r ddrec; cynffonnau a mwng wedi eu plethu â raffia a chocêd, a'r drol ei hun wedi ei golchi a'i sgwrio. Hen olwyni 'limbers' ar ôl y Rhyfel Mawr oedd arni; onnen cryf, ond y cylch braidd yn gul ar dir llaith.

Roedd pob certmon iawn i fod i droi'r drol unwaith yn ei yrfa, ond welais i ddim o'r anffawd hwnnw yn digwydd, ond bu mân ddamweiniau. Aeth Liws i Lwyncoed, Cwm-y-glo, i ddiweddu ei hoes, a daeth Jess, merch y gasg goch i gerdded y rhych wrth ochr ei mam. Ond doedd hi ddim mor ddedwydd yn y cadwynni blaen yn y drol. Wrth fynd drwy adwy hefo llwyth o dail, rhoddodd bwcs croes a thorri'r llorip yn gratchian.

Roedd Jess yn eboles ddel o drwsiad, ond un ddamweiniol oedd hi. Serch hynny, roedd hi crystal cynnyrch â'r un a aned fel canlyniad i ymweliad y stalwyn teithiol a ddangosid ar y Maes Ffair Glanmai. Deallwyd wedyn mai ceffyl cymydog oedd wedi torri trosodd a gwneud ei mam yn gyfebr.

Mae gen i gof hefyd fynd i Stesion Bont i mofyn hadau neu rhyw nwyddau fyddai wedi dod o bell ar y trê'n 'goods'. Cyfareddol yr adeg honno, os digwyddai i drên ddod heibio oedd gwyllo Bob Hughes y gorsaf-feistr yn newid y 'staff'

hefo'r gyrrwr, a'r trê'n yn dal i fynd.

Mor anaml oedd y drafnidiaeth ar y ffordd yr adeg honno fel yr oeddwn yn gallu gorwedd ar fy hyd-gyd ar waelod y trwm-bal yn sylu ar y cymylau a'r hen gasg yn mynd adre heb gyfarwyddid rensan. Gwyddwn, serch hynny, pan oeddem wedi cyrraedd ar gyfer Tŷ Gwyn, y Waen Winau. Byddai'r drol yn dechrau ysgytian am nad oedd y ffordd wedi ei thario ddim pellach na'r fan honno. Pe baem yn cynnig yr un peth heddiw, mae'n debyg y byddem yn bowltris cyn dod dros y pontydd.

Cyfrannodd yr Ail Ryfel Byd, gyda'r angen i fwydo'r trigolion gwarchaedig, yn hael at dranc y ceffylau gwedd. Roeddem yn sylweddoli bod dyfodiad y tractorau diflino yn canu eu cnul. Aeth ein rhai ni yn yr arwerthiant ymadael: yr hen gasg i wneud gliw, a Jess i gymydog caredig.

Gyda ymadawiad y ceffylau

diflannodd yr hwmoniaeth grefftus a gofalus o etifeddiaeth, a daeth y frawdoliaeth amaethyddol i roi mwy o bwys ar gystadleuaeth na chymwynas. Aeth y tempo hamddenol a oedd yn gysylltiedig â symudiad y ceffylau yn rhuthr diamcan. Gall unrhyw un erbyn hyn aredig cae rhyw lun, caniatáu fod ganddo'r gallu i droi olwyn a symud ambell lifar, heb gael baw ar ei esgidiau na gwlychu ei ysgwyddau. Gall hyd yn oed gael weirio ei glustiau i wrando ar litani'r grefydd gyfredol. Diflannodd rhan helaeth o eirfa cefn gwlad hefyd; drec, stend, cwlwtwr, carau ên, pombran, bwlitid, cebyst, bondid.

Ond pan sych yr hylif sydd yn gyrru'r peiriannau digyfaddawd, pa nerth fydd ar gael i drin tir i fwydo'r miloedd? Caniatáu bod dadenedigaeth i'r ceffyl gwedd, o ble y daw'r certmyn? Erbyn hynny fydd fawr o ddiben dod i'r fynwent i chwilio amdanom.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Da deall fod Mr J.O. Hughes, Penlon wedi dychwelyd adref o'r ysbyty yn Great Yarmouth pan ar ei wyliau. Brysiwch wella.

Cydymdeimlad: Cydymdeimlwn a Mr Cemlyn V. Williams a'r teulu, Groeslon ar eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl sef Mrs Megan Williams (Dwyfor gynt) a fu farw Awst 25 ain ym Mhlas Pengwaith Llanberis. Bu Mrs Williams yn aelod ffyddlon yng nghapel Tan-y-coed am flynyddoedd lawer, ac wedi byw yn Dwyfor ers 80 mlynedd.

Llongyfarchiadau: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gareth Lloyd Jones ar enedigaeth eu hail fab Ifan ar Awst 14 eg, brawd bach i Dylan.

BETWS GARMON

Llongyfarchiadau i Emyr a Sandra Jones, Bryn Ifor ar enedigaeth eu mhab bychan Gareth Wyn. Gorfu i Gareth fynd i Ysbyty Older Hey Lerpoll i gael llawdriniaeth, ond bellach mae wedi cael dod adref. Croeso iddo adref o'r ysbyty.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y mis nesaf:

Medi

10: Y Parchg W. R. Williams (10)

17: Y Parchg W. R. Williams (2)

24: Y Parchg Trefor Jones (2)

Hydref

1: Diolchgarwch. Y Parchg W. R. Williams (2)

8: Y Parchg S. O. Hughes

Ceisiadau Ariannol: Gan y bydd Cyngor Cymuned Waunfawr yn ystyried ceisiadau ariannol oddi wrth fudiadau lleol yn ystod ei gyfarfod yn y Ganolfan, Waunfawr, ar 4 Hydref, dylid anfon unrhyw gais, gyda'r fantolen ariannol ddiweddaraf, at y Cler, Mr Glyn Evans, Glyn Rhosyn, 9 Ty'n Llan, Dinas, Caernarfon LL54 5UB, erbyn 22 Medi.

Gwyliau'r Ysgol: Eleni, am y tro cyntaf ers dros ugain mlynedd, ni fu gweithgareddau cymunedol yn y pentref. A fu hiraeth am y Carnifal neu Ddiwrnod Hwyl? Beth am fis Awst heb y Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ? Efallai mai teimlad o ryddhad a rhyddid sydd gan rai. Beth am ddarlennwyr Eco'r Wyddfa? Pe bai cyfarfodydd yn yr hydref er mwyn ailsefydlu'r Sioe neu weithgareddau'r haf, dim ond presenoldeb llw o bentrefwyr a chynigion gwasanaethu ar bwyllgor fydd yn dangos y galw ac ailgodi'r ysbryd cymunedol. Beth amdani?

COFIWCH
ANFON ERTHYGLAU A
NEWYDDION AR GYFER
Y RHIFYN NESAF
O'R ECO
ERBYN NOS LUN
MEDI 18

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Ffôn: 650799)

Diolch: Dymuna Emyr a Susan Williams, Pant Hyfryd, Ceunant (gynt o 44 Bro Eglwys, Bethel) ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cydnabod am bob arwydd o gydymdeimlad, caredigrwydd a chymorth a ddangosodd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli'u mab Owain Rhys, brawd bach Ifan Rhys. Diolch o waelod calon hefyd i Staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u cynhaliadau, i'r Rheithor Philip Hughes a'r Parch Ioan Wyn Jones am eu gwasanaeth ac i Mr Gwynfor Jones am ei drefniadau trylwyr.

Priodas: Ar Gorffennaf 28ain yng Nghapel y Rhos, Llanrug, priodwyd Sioned Einir Parri, merch Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant gyda Euros Wyn Davies, mab Maldwyn a Hafwen Davies, Clwt Crugor, Bylchau gan y Parchedig Harri Parri, Caernarfon. Yr organyddes oedd Carys Jones. Y morwynion oedd Gwenno Doyle (chwaer y briodferch), Rhian Jones (chwaer y priodfab) a Carys Williams (nith y briodferch). Y gwas oedd Iwan Davies (brawd y priodfab) a'r gweision bach oedd Gareth Ieuan Doyle a Dion Owen Jones; y tywyswyr oedd Alwyn Evans a Richard Blase. Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Mae Einir yn athrawes yn Ysgol y Gelli,

Caernarfon ac Euros yn athro yn ysgol Cymerau, Pwllheli, maent wedi ymgartrefu yn Rhos Fawr, Y Ffor.

Dymunwn yn dda iawn i'r ddau yn eu bywyd priodasol.



Croeso i Ceunant: Estynnwn groeso cynnes iawn i Emyr, Susan ac Ifan Williams sydd wedi ymgartrefu ym Mhant Hyfryd, Ceunant.

Arholiadau: Llongyfarchiadau i Sian Alaw Jones, Rhos y Grug ar ei llwyddiant yn ei arholiadau TGAU. Pob hwyl iddi yng Ngholeg Menai, Bangor lle bydd yn dilyn cwrs mewn Celf a Dylunio. Hefyd dymunwn yn dda i'w chwaer Ffion yn Ysgol Brynrefail.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol - Gwaith Contract - Pell ac Agos

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr y Clwb 300. Mis Mehefin: £40: Mrs M. Jones, Glaslyn; £25: Mr Edgar Owen, Glyn Awel; £10: Mr V. D. Davies, Bryn Gwyrfa. **Mis Gorffennaf:** £40: Mr Neville Owen, Bryn Gwylan; £25: Mr B. Parry, 8 Pant Waen; £10: Mr T. G. Williams, 17 Tref Eilian. **Mis Awst:** £40: Mr F. Buckley, 4 Croes-y-waun; £25: Mr V. D. Davies, Bryn Gwyrfa; £10: Mrs Joy Glyn, Plas Bodhyfryd.

Llwyddiannau Addysgol: Llongyfarchiadau i bob un ar lwyddo mor dda yn yr arholiadau TGAU, lefel-A ac arholiadau colegau. Dymuniadau gorau i'r dyfodol. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd yn ystod yr hydref.

Llwyddiannau Cerddorol: Bu leuan Parry, 8 Pant Waun, yn llwyddiannus yn arholiad piano, gradd 1; Lowri Glyn, Plas Bodhyfryd, gradd 3, piano; Lowri Edwards, Melin-y-wig, gradd 3 piano a theori; Iona Williams, Garreg Fawr, gradd 4, theori; Helen Williams, Garreg Fawr, gradd 4, piano; Karen Jones, Tan-y-waun, gradd 4, theori. Llwyddodd Heledd Elfryn, Coed Gwydryn yn yr arholiad fflwt gradd 5; ac Aled Rhys, Pen-y-graig, gradd 4 gyda anrhydedd yn arholiad basŵn. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a daliwch ati i ymarfer eich doniau.

Dathlu Penblwydd: Llongyfarchiadau i Martin Beech, Rose Mount, a David Henderson, Bryn Gwynedd, ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed; i Avril Charge, Llifon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed; Mrs M. Owen, 26 Tref Eilian, ar gyrraedd ei 90 oed; a Mrs L. Evans, Tegfan, ar gyrraedd ei 93 oed. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Karen a Dewi Morris, Llys Ifor, ar enedigaeth eu merch fach, Shauna Elizabeth, chwaer fach i John Gavin, wyres fach i Myra Ron Turner, Collfryn, a gor-wyres fach i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Tref Eilian.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Siwan Glyn, i'w merch Delyth a'i phriod Glyn yng Nghaerdydd.

Daeth Mr a Mrs T. H. Williams, Llwydiarth yn daid a nain eto, ganwyd merch fach, Catrin Heledd, i'w mab Dafydd Glyn a'i briod Carys, chwaer fach i Sioned a Bethan.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Rob Jones, Tan-y-fryn, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Robin Gronw i Nan Wyn a'i phriod Huw yn Y Bala.

Llongyfarchiadau i Valmai a Paul, 21 Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth eu mab bychan, Siôn Tudur, ac i Mrs Mair Williams, Cefn Coed, ar ddod yn nain i'r bychan.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Wedi treulio saith wythnos yn yr ysbyty cafodd Mr Glyn Williams, Stad Tref Eilian, ddod adef i ddathlu Priodas Aur gyda'i wraig, Megan. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ichwi eich dau.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Wil Jones, Graianfryn, ar ddathlu eu Priodas Arian; Mr a Mrs Dafydd Beech, Rose Mount, hwythau hefyd wedi dathlu eu Priodas Arian; Mr a Mrs Colin Rowlands, Ty'n Coed, hefyd wedi dathlu eu Priodas Arian yn ystod gwyliau'r haf.

Llwyddiannau Eisteddfodol: Llongyfarchiadau mawr i Myra Turner, Collfryn, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth adrodd agored dros 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal am ddeg o'r gloch fore Sadwrn olaf yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm beirdd y Waunfawr ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Talwrn y Beirdd yr Eisteddfod.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, yn ei phrofedigaeth lem o golli ei mham. Cydymdeimlwn hefyd a theulu a ffrindiau y ddiweddar Mrs Nellie Williams, 1 Ael-y-bryn gynt, a fu farw'n ddiweddar yng Nghartref Plas-y-bryn, Bontnewydd.

Croeso adef o'r Ysbyty: Croesawn Gwenno Owen, Glyn Awel; Mrs M. A. Owen, Bod Arfon, Stad Tŷ Hen; Mr Eurig Wyn, Y Frenni; Mr Eric Wyn Williams, Bro Waun; Mr Rol Williams, Ardwyn; Fflur Llywelen, Stad Tref Eilian; a Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen, adef o'r ysbyty, gan ddymunio gwellhad llwyr a buan i chi i gyd.

Anfonwn ein cofion at Mrs Elaine Parry, Bro Waun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Gobeithiwn yn fawr fod Mrs Gracie Thomas, Stad Tref Eilian, yn gwella wedi iddi gael anaf i'w choes yn ddiweddar.

Ymdeoliad: Dymunwn ymdeoliad

hapus i Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart, o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Brynrefail.

Llwyddiant ar y cae pêl-droed: Fel un o dîm pêl-droed Merched Dinas Bangor bu Elaine Owen, Glyn Awel, yn y Cech Republic yn ystod yr haf yn chwarae tair gêm. Enillwyd dwy o'r gêm a chollwyd y drydedd yn erbyn un o dimau gorau'r wlad, sef Slavia Prague. Roedd hi'n wlad hyfryd ac roedd safon y pêl-droed yn uchel iawn. Mae Gwenan Jones, Glyn Ceris, yn aelod o'r tîm pêl-droed hefyd ond ni fu hi ar daith gyda'r tîm y tro hwn.

Canolfan Chwaraeon Waunfawr: Bydd estyniad newydd Canolfan Chwaraeon Waunfawr, sy'n cynnwys neuadd fowlio, stafelloedd snwcer, storfa a chyfleusterau eraill, yn agor yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Adeiladwyd yr estyniad, fydd wedi costio £80,000, yn bennaf drwy lafur gwirfoddol. Bydd yn galluogi'r pwyllgor i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol o'r gymuned am ddefnyddio ei chyfleusterau.

Dywedodd yr ysgrifennydd, Robert Williams: 'Rydym ni'n hapus iawn fel mae'r ardal wedi tynnu hefo'u gilkydd i symud pethau ymlaen'; a dywedodd y trysorydd, Mr Edgar Owen: 'Rydym ni'n ddiolchgar i'r Sefydliad Chwaraeon a Chelfyddydau, y Swyddfa Gymreig drwy Gyngor Sir Gwynedd, a'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth ariannol.'

Mae gan yr ardal gynlluniau hefyd i adeiladu cae pêl-droed pob-tywydd yng nghefn y Ganolfan ac mae hwn eisoes wedi cael addewid grand yn amodol oddi wrth Gyngor Arfon.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs M. Owen, 26 Tref Eilian, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a phob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Dymuna Mrs Anne Anderson a'i mham, a theulu Storfa Tŷ Newydd, ddiolch am y geiriau caredig a'r cardiau cydymdeimlo a dderbyniasant gan drigolion yr ardal yn eu profedigaeth o golli tad Anne yn ddiweddar.

Dymuna Alun a Haf, Bryn Golau, ddiolch o galon am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Emyr a Sandra, Graianfryn, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniasant tra bu eu mab bychan yn Ysbyty Alder Hey,

Lerpwl, yn cael llawdriniaeth. Mae Gareth Wyn adef erbyn hyn ac yn dod yn ei flaen yn dda.

Antur Waunfawr: Bu'r Antur yn brysur iawn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn yn Abergele.

Bu'r gwsanaeth ail-gylchu yn brysur yn casglu caniau am yr wythnos a chasglwyd 206 kilo.

Cafwyd dwy gystadleuaeth yn ystod yr wythnos, un i ddyfalu faint o ganiau oedd mewn sach. 468 oedd yr ateb ac aeth y wobwr (mainc) i Mr Davies, Peniel, Dinbych.

Dyfalu faint o amser yr oedd hi'n cymryd i Dylan Jones, un o staff yr Antur, reidio ei feic o'r Antur i faes yr Eisteddfod oedd yr ail gystadleuaeth. Coeliwch neu beidio cymerodd 2 awr 35 eiliad. Yr agosaf at yr amser iawn oedd Rhys Huws, Argoed, Waunfawr sydd wedi derbyn gwerth £25 o recordiau o Siop Recordiau'r Ci Du, Caernarfon a Susan Herbert sy'n derbyn gwerth £15 o fwyd cyflawn o Herbs, Bangor. Hoffai'r Antur ddiolch o galon am y rhoddion tuag at y gwobrau.

Y räs nesaf fydd ar Fedi'r 30ain am 2.00 o'r gloch o'r Ganolfan lle byddwn yn cynnal raffl. Gwobr — Beic Mynydd.

Ysgol Waunfawr: Wedi blwyddyn brysur daeth diwedd y flwyddyn gyda chyflwyno tariannau blynyddol.

Tarian Cerdd — Emma Davies
Tarian Mabolgampau — Alistair Addison.

Tarian Gwaith Gorau — Ifan Glyn.
Cwpan Ymdrech — Thomas Hughes.

Dymunwn bob llwyddiant i'r rhai sydd yn dechrau ar gyfnod newydd mewn ysgol uwchradd.

Cydymdeimlwn â Mrs Eryl Thomas, y Brifathrawes, yn ei phrofedigaeth o golli ei Mam yng nghyfraith.

Adef o'r Ysbyty: Croesawn Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, adef ar ôl iddo fod yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Heddu Gwynedd, Nant, ar lwyddo yn arholiad Gradd 6 chwarae'r fflwt.

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
— TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545



ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

DRAENOG



LLETY ARBENNIG

ar gael i GŴN

Brecwast ardderchog yn cynnwys

Corn Flakes a Kit-Kat

RHES Y GRAIG, LLANBERIS

MAE'R


SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

CROESAIR MEDI



AR DRAWS

9. Symud ar lwybr anunion (9)
10. Yr hyn a wna llong yn yr harbwr (5)
11. Pwn neis i sicrhau na fyddwn yn llwgu ar ôl ymddeol (7)
12. Adeilad ar wahanol lefelau (7)
13. O ble y daw adar bach — fesul dwsin? (4)
14. Yn ffynnu (10)
16. On aberfan y daw'r cerbyd bach hwylus yma (5)
18. Cyflog sy'n ddyledus (2-3)
20. Un sy'n credu mewn ymerodraeth (10)
23. Gall bacio yn y modurdy fod yn gostus (4)
25. Un â dyled iddo (7)
26. Fe'u defnyddir gan saer i dorri tyllau, ond fel cyfeiliant gan Bob (7)
27. Gêm y grib (5)
28. Bod yn gyndyn, neu'n anodd ei drin (9)

I LAWR

1. Yr agosaf at ben yr ysgol (7,8)
2. Pentref ar gyrion Aberystwyth, rhyw dair milltir o Gaernarfon! (8)
3. Ymgolli'n llwyr ar rhywun (5)
4. Rhai sy'n symud gydag amseriad cerddoriaeth (8)
5. Perthynas galed sydd rhwng awdur a'i ddarllenwyd (6)
6. Y feddyginiaeth draddodiadol o gael pigiad gan ddanadl poethion (4,5)
7. Uchelfaon (6)
8. Dynion o gomics LR sydd ym mol y cyfrifiadur (15)
15. Llechwraidd (9)
17. Casét lliw yn llunio cawslestri (8)
19. Rhoi araith i gynulleidfa (8)
21. Y stad o fod yn agored i niwed (6)
22. Canlyniad afrosgo o gynddeiriogi'r ddwy afr (6)
24. Gwrol (2-3)


ATEBION

CROESAIR GORFFENNAF

Daeth ugain o atebion cywir i groesair mis Gorffennaf, ac wyth arall gyda mân wallau — y nifer mwyaf i ymateb ers i mi ddechrau creu croeseiriau'r Eco. Y rhai a atebodd yn gywir oedd Olwen Owen, E. W. Pritchard, E. E. Jones, Iorwerth a Jean Williams, Dorothy Jones, Elfed Evans, Mabel Parry, Mair Foulkes, Beryl Jones, Mary Davies, Ceridwen Williams, Janet Hughes, G. Gill, Ceinwen Williams, Catherine A. Jones, Jean Hughes-Jones, Nansi Davies, Rhiannon Pritchard-Jones, Dilys A. Pritchard Jones a Vera Williams.

Llunio cliw cryptig i'r gair ADEG oedd y dasg ychwanegol a osodwyd. Methais a deall nifer och ymgeision ('rwy'n sicr mai arnaf i mae'r bai): 'Treigladd tri ar ddeg?' 'Gwendid ar y lleud yr amser hwn o'r tymor?' 'Amser da i hel mwyar duon?' Ceisiodd rhai guddio'r gair: 'Gwnes apwyntiad eglur dros y ffôn'; 'Amser yn y gwaed'; ac un dan gan Mrs G. Gill: 'Cewch amser da mewn helfa deg'; a hefyd gan Ceinwen Williams: 'Yn aradeg mae dal iâr ac ennill amser'. 'Gradd cyfiawn' oedd A-deg i Vera Williams a daeth Mable Parry a hen ddihareb i gof: '... i wêr, blaenwydd i floneg'.

O blith yr anagramau y daw'r



buddugol y mis yma. Aeth dau ar ôl y gair GAED a dau arall ar ôl y gair Saesneg AGED.

'Amser dryslyd a gawn pan heneiddia'r Sais', gan Mrs E. W. Pritchard; ac 'Amser cymysglyd i henoed Seisnig' gan Iorwerth a Joan Williams. 'A gaed ateb i mewn neu allan o amser', gan Mrs Mary Davies, Waunfawr. Ond y gorau gen i y mis ymad ydi ymdrech Dorothy Jones, 5 Talybont, Llanrug, sef yn syml: 'Roedd y tymor gaed yn ansefydlog iawn' — mae o'n gwella bob tro y byddaf yn ei ddarllen!

Eich tasg ychwanegol y mis hwn — ar ôl datrus y croesair wrth gwrs — fydd dewis gair pedair llythyren gwahanol yn 23 ar draws, ond gan ddefnyddio y ddwy llythyren a ddaw o 8 a 19 i lawr. 'Rwy'n siŵr fod dwsinau ohonynt. Yna ewch ati i lunio eich cliw cryptig i'ch gair newydd.

Dyddiader y Mis

10. Sul

BETHEL: Cymanfa Ganu yn Eglwys Llanddeiniolen am 7.30 p.m. Arweinydd: Robin Jones. Eitemau gan Barti Clychau'r Grug a Mr Bob Thomas.

11. Llun

DEINIOLEN: Pwyllgor Blynnyddol Cyngor Eglwysig yn Ebeneser am 7 o'r gloch.

12. Mawrth

LLANRUG: Merched y Wawr — sgwrs ar 'Llwg ym Mhen Llŷn', gan y Parchg Harri Parri.

YR ARDAL: Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon — Helfa Drysor yn cychwyn o Neuadd Goffa Bethel rhwng 6.30 a 7 o'r gloch.

13. Mercher

DOSBARTH PADARN: Seiat Holi — Dosbarth Padarn yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7 o'r gloch.

16. Sadwrn

PENISARWAUN: Pwyllgor y Neuadd — Taith Gerdded Llwybrau (noddedig), dan arweiniad Leslie Larsen. Cychwyn am 10 o'r gloch o gyntedd yr Ysgol.

18. Llun

DEINIOLEN: Merched y Wawr — sgwrs gan Angharad Jones, Caernarfon (enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Bro Colwyn), am 7 o'r gloch yn Y Caban.

19. Mawrth

DINORWIG: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (W.E.A.) — cyfarfod cynta'r tymor gyda Ifor Baines, yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

25. Llun

DEINIOLEN: Y Gymdeithas Lenyddol — Lleisiau'r Gweunydd, yng Nghanolfan yr Ysgol.

28. Iau

PENISARWAUN: Plygu'r Eco yn Neuadd yr Eglwys. Cychwyn am 5.30 o'r gloch.

29. Gwener

YR ARDAL: Plaid Cymru — Dydd Agored yn y Swyddfa yng Nghaernarfon rhwng 10 a 4 o'r gloch.

RHODDION

£25: Pwyllgor lleol cofio dyddiau VE/VJ.

£10: Di-enw; Mrs Carys Thomas a'r teulu, Clwt-y-bont; Mrs D. M. Jones, Caernarfon (gynt o Ysgoldy, Clwt-y-bont; S. E. Jones).

£5: Teulu'r ddiweddar Miss Nancy Roberts (gynt o Derwen, Stryd Fawr, Deiniolen gynt); Eira, Heather a Mathew, 12 Rhos Marian, Deiniolen; Mrs Eluned Porter, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mary Davies, Waunfawr; Betty Parry (Nyrs Ysgol), Bontnewydd; Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant; Tafarn Penbont, Llanrug; Terry a Christine Saynor, Maes Padarn, Llanberis; Mrs Menna Byrne, Aberhonddu.

£3: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Delyth Hughes, Fron Goch, Llanberis; Mrs Nerys Owen, Bethel; Mr Kelvin Plemming, Llithfaen; Cledwyn, Joan a Cheryl, 3 Rhesdai

Gwyrfa, Deiniolen; Barry John, 35 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Betty Jones, Tan-y-buarth Uchaf, Deiniolen; Mr a Mrs Gwilym Jones, 12 Dôl Eilian, Llanberis.

£2: Glyn a Ruth Morris, Bwthyn Foel Gron, Dinorwig; Goronwy a Mair, 18 Rhydfadog, Deiniolen; Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug; Paula Thomas ac Aneirin, gynt o 5 Rhydfadog; Sandra Davies, Bryn Tirion, Llanberis; Miss Violet Roberts, Deiniol House, Brynrefail.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DIOLCH

Dymuna Beth Jones, Nyrs Ardal, ddiolch yn arbennig i Dr Pamela Jones a'r partneriaid, holl weithwyr y Feddygfa, nyrsus ardal Arfon, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am eu caredigrwydd, eu gweddïau a'u meddyliau da tuag ati yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd am yr ymwelwyr tra yn yr ysbyty ac adref, y galwadau ffôn, y cardiau a'r blodau. Gallaf eich sicrhau fod yr holl ddymuniadau da yn cael eu gwir werthfawrogi, ac yn gymorth i mi.

BETH JONES (Nyrs Ardal)
Dolwen, Llanrug

DIOLCH

Dymuna Betty Parry, Nyrs Ysgol, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar, gan athrawon a phlant ysgolion Brynrefail, Bethel, Cwm-y-glo, Deiniolen, Llanrug, Llanberis, Penisarwaun a Rhiwlas.

Diolch cynnes iawn hefyd i'w theulu, ei ffrindiau a'i chydweithwyr.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

CHWARAEON

DIWEDD GYRFA AC YMRODDIAD

Erbyn y darllenir yr erthygl hon bydd criw newydd o blant wedi cychwyn ar eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail, ac yn fuan iawn fe dystiant am y cyfeillgarwch a'r berthynas glôs sy'n bodoli yno cydrhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae'n sicr y bydd y newydd-ddyfodiad yn gwneud aml i athro deimlo'n hen gan beri iddynt wneud sylw fel, 'Dwi 'di dysgu dy dad/fam cyn hyn!'. Un o 'greigiau' ymysg athrawon Brynrefail na fydd yno i'w croesawu eleni fydd Richard Meirion Parry ('Dic PT' i'r plant) gan iddo, ar ddiwedd y tymor diwethaf, ymddeol o'i swydd wedi cwblhau dros 30 mlynedd o wasanaeth ac o ymroddiad.

Yn ystod fy nghyfnod fel golygydd chwaraeon Eco'r Wyddfa 'rwyf wedi ceisio adlewyrchu ystod eang o gampau a doniau'r ardal a cheisiais hefyd ddiolch i'r llu o'r bechgyn a'r merched sydd mor gefnogol i'n hieuencid. Yn sicr mae Dic yn un o'r arweinwyr distaw yma na fyddai dynnu sylw ato ef ei hun, yn wir fe ddwedodd rhai o'i gyfeillion ei fod yn rhy ddiymhongar. Serch hynny y mae, fel y tystia nifer a chwaraeodd bêl-droed neu griced yn ei erbyn, elfen gystadleuol iawn i'w darganfod y tu ôl i'r sbectol a'r locsyn.



Alun Vaughan yn cyflwyno un o'r grysau rhedeg rhyngwladol i Dic Parry ar gyfer Arddangosfa'r Ysgol.

Yr hyn sy'n rhaid ei bwysleisio am Dic Parry yw nad 'gwaith' yn unig oedd ei swydd yn Ysgol Brynrefail, ac ni fyddai 'cloch y pawns' yn ddiwedd dydd. Gwnâi Dic yn siŵr — beth bynnag y gamp — fod Ysgol Brynrefail yn cael ei chynrychioli ac yn 'cystadlu'. Teimla'n gydwybodol mewn rhoddi cyfle i ddisgybl hynny beth bynnag ei gefndir, ei gymwysterau a'i allu. Ni fu erioed yn cuddio tu ôl i'r esgus mai 'ysgol fach' yw Brynrefail a gallaf eich sicrhau i mi wyllo gêmâu cystadleuol iawn rhwng Ysgol Brynrefail a'r 'ysgolion mawr'. Y mae ymroddiad y plant i Frynrefail yn amlwg. Nid ar chwarae bach y mae meithrin a chynnal y fath deyrngarwch. Beth tybed yw'r gyfrinach? Yn sicr mae Dic yn teimlo



Dic Parry

y dylai ysgol adlewyrchu ei dalgylch. Do, fe fu pêl-droed yn flaenllaw iawn (er y gwelwyd pyst rygbi yno unwaith!), gan mai ardal pêl-droed ydi hi. Y mae'r gymuned yn dymuno gweld adlewyrchiad o hyn yn ein hysgolion. Y mae cynrychioli tîm yr ysgol yn uchafbwynt i'r plant. Ond peth 'elitaidd' yw hynny medde chi! Nage, oherwydd fe gadwodd Dic un o'r hen draddodiadau, sef y cystadlaethau tai, gan fod hyn yn rhan bwysig o'r 'perthyn'. I gynnal y traddodiadau hyn bu'n rhaid cael cymorth cyd-athrawon, a rhaid cofio mai dau o athrawon sydd yn yr adran addysg gorfforol, sef un i'r bechgyn ac un i'r genethod; gall hyn fod yn gryn straen, ond fe gerddodd Dic fwy na'r ail filltir.

Pe gofynnid i mi ddisgrifio Dic mewn un gair fe ddwedwn 'traddodiadol'. Un o ryfeddodau adran addysg gorfforol Ysgol Brynrefail yw'r Llyfr Canlyniadau gan fod hwn yn ddogfen hanesyddol ac yn werth ei weld. Nodir ynddo holl ganlyniadau mabolgampau'r Ysgol — POB cystadlaeth cofiwch. Ni cheir unrhyw amheuaeth pwy sy'n dal record yr Ysgol a phryd y sefydlwyd y record honno. Gwelir yn y Llyfr ambell i enw cyfarwydd, a sylwi ar

RAS CEFN DU

Ar nos Fawrth, Medi 12 fed o Ysgol Gynradd Llanrug cynhelir y ras gyntaf o Lanrug i gopa'r Cefn Du ac yn ôl. Bydd cofrestru ar gyfer y ras yn cychwyn o 6.15 p.m. gyda'r brif ras yn cychwyn am 7.00 p.m. Yn ychwanegol, bydd ras i rai dros 12 oed a than 16 oed i Garreg Arthur ac yn ôl. Mae'r rasmus hyn yn cael eu cynnal dan reolau'r FRA — Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Prydain, ac y mae gwahanol wobrau mewn nifer o gategorïau oedran. Pris cystadlu fydd £2, a bydd yr elw tuag at Gronfa Canolfan Llanrug. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Dafydd Whiteside Thomas (01286) 673515. Gobeithir hefyd gynnal cystadlaethau rhedeg i dimau o blant ysgolion cynradd (ond nid ar y mynydd). Am fanylion ynglŷn â'r rhain, cysyllter â Phrifathro Ysgol Gynradd Llanrug.

YR APÊL FLYNYDDOL

Eleni mae pum tîm pêl-droed oedolion yn y cylch, ar wahân i'r llu o dimau ieuencid. A gaf i apelio at swyddogion y clybiau i gysylltu â mi ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r gêmâu.

Eich papur chi ydi Eco'r Wyddfa. Defnyddiwch y golofn i hybu neu adlewyrchu eich Clwb. Nid yw unwaith y mis yn ormod o waith.

Fy rhif ffôn yw:
(01248) 670115



Mark Williams, Bethel, ac Yvonne Templeton, Llanrug, Victor a Victrix Ludorum Ysgol Brynrefail 1995.

eu datblygiad rhwng cloriau llyfr.

Yn dilyn yn dynn wrth sawdl poblogrwydd pêl-droed yn yr Ysgol y mae'r traddodiad rhedeg a chof llawer o gyn-ddisgyblion am y cyrsiau rhedeg traws-gwlad (a'r manau hynny i guddio neu gael smôc sydyn). O ystyried maint yr Ysgol fe fagwyd ynddi nifer o atheletwyr a wnaeth gryn farc, gan gynnwys Kevin Davies, Colin Jones, Alun Vaughan, a'r taflwr pwysau Michael Roberts, ac yr oedd pob o'r rhain, er eu llwyddiant, yn falch o arddel enw Ysgol Brynrefail. Maent i gyd yn cydnabod y gefnogaeth barod a ddeilliai o gyfeiriad Dic PT, gan iddo eu danfon yn y bws mini, neu yn ei gar ei hun, 'i wneud yn siŵr bod y plant 'cw yno'.

Y mae Dic hefyd yn rhan annatod o'r gymdeithas gan iddo chwarae i dîm Llanberis, ac fe erys ei daran o ergyd yn y cof. Cafodd yrfa

lwyddiannus gyda tîm Port, ei dref enedigol, ac hefyd yn un o 'Hogia Orig' yn Nyffryn Nantlle. Bydd nifer o ieuencid Deiniolen yn meddwl amdano fel arweinydd y Clwb Ieuencid yno am nifer o flynyddoedd. Bu'n aelod o Glwb Criced Fron Dinas ac yn un o'r ychydig 'leg-spinners' a welwyd yn yr ardal. Ond, eto nid oedd chwarae i Fron Dinas ddim yn ddigon gan iddo, gyda Meilir Owen, fod yn gyfrifol am dîm ieuencid Fron Dinas. Yn y cyswllt hwn gwelai Dic gyfle i blant yr Ysgol chwarae'r gêm gan nad oedd clwb criced ym mro'r Eco. A sut y cyrhaeddai y bechgyn hynny i'r gêmâu? Dic, wrth gwrs.

I gloi'r deyrnged hon mae'n rhaid dychwelyd at y bêl-droed. Gyda diwrnod gwaith Dic yn dod i ben mae'n siŵr ei fod yn ymfalchïo yng ngyrfa nifer o'i gyn-ddisgyblion. Mae Malcolm Allen i fyny yn Newcastle (pencampwyr eleni efallai?) a gwn fod Dic wedi cadw mewn cysylltiad agos â Malcolm ac wedi cael gwahoddiad i Newcastle droeon. Mae Marc Lloyd Williams a Gavin Allen gyda'u gilydd yn Stockport County. Mae Marc yn chwarae'n rheolaidd yno y tymor yma. Ar ddiwedd y tymor diwethaf daeth y newyddion gwyh fod Eifion Jones wedi arwyddo i Lerpwl (gweler y llun isod). Gwn fod ganddo hefyd cryn feddwl o Gwil Bach a Dilwyn John hefyd — yn wir mae gan Dic feddwl y byd o bob un o'r plant — am mai plant Brynrefail ydyn nhw. Gwn o brofiad fod gan ddisgyblion nad oedd yn meddu ar unrhyw ddawn neu ddiddordeb mewn chwaraeon — oes ma' 'na rai — barch mawr i Mr Parry.

Cymeraf y cyfle hwn felly, ar ran yr ardal, i ddiolch i Dic am ei ymroddiad, cyfraniad, teyrngarwch a'i ymdrechion dros gyfnod maith. Mwynha dy ymddeoliad Dic, a derbyn ein diolch.

EIFION YN YMUNO Â LERPWL



Steve Highway, un o gyn-chwaraewyr enwog Lerpwl yn sicrhau llofnod Eifion Jones, Llanrug, ar ran y tîm o Anfield.